# Hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr: Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau 2026-31

Cyfrol 1: Trosolwg, crynodeb a strwythur

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd 20 Mawrth 2025
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 12 Mehefin 2025

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ........ 3
2. Cyflwyniad a chrynodeb o’r cynigion ........ 9
3. Strwythur gweddill yr ymgynghoriad hwn ........ 34

# 1. Trosolwg

1.1 **Mae'r ddogfen hon yn nodi cynigion Ofcom ar gyfer rheoleiddio'r marchnadoedd telegyfathrebiadau sefydlog sy'n sail i gysylltiadau band eang, symudol a busnes, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2031. Mae ein cynigion wedi'u cynllunio i hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau o safon sy'n gallu delio â gigabits – gan ddod â band eang cyflymach a gwell i bobl ledled y DU.** [1]

1.2 Mae mynediad at rwydweithiau diogel a dibynadwy, o safon yn ganolog i bob agwedd ar ein bywydau digidol ac yn sbardun allweddol ar gyfer twf economaidd. Dyna pam mae sicrhau bod gan ddefnyddwyr yn y DU fynediad at rwydweithiau a gwasanaethau o safon, sy'n ffeibr llawn ac yn gallu delio â gigabits, yn flaenoriaeth i Ofcom. Mae'r adolygiad hwn o'r farchnad yn rhan bwysig o'n rhaglen waith i gyflawni'r flaenoriaeth hon.

1.3 Ein strategaeth ers 2016 oedd hyrwyddo buddsoddiad mewn rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits drwy gystadleuaeth rhwng rhwydweithiau mewn ardaloedd lle mae hyn yn ymarferol. Mae buddsoddi mewn rhwydweithiau cyflymach, mwy dibynadwy sy'n addas ar gyfer y dyfodol o fudd uniongyrchol i ddefnyddwyr a busnesau sy'n defnyddio'r rhwydweithiau hyn ar gyfer gwaith, cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus ac adloniant. Mae hyn hefyd yn sbarduno twf economaidd, gan gefnogi arloesedd a chynhyrchiant uwch ar draws pob sector o'r economi, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer cyflwyno technolegau newydd ac ar gyfer trawsnewid y sector cyhoeddus. Ar ben hynny, dylai'r gystadleuaeth rhwng rhwydweithiau rydym yn ceisio ei hyrwyddo ddod â manteision tymor hwy o arloesi, dewis, a chymhellion cryfach i brisio'n ddoeth i ddenu cwsmeriaid a gwella ansawdd y gwasanaeth ymhellach.

1.4 Yn yr Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol 2021, fe wnaethom sefydlu fframwaith rheoleiddio manwl gyda'r nod o hyrwyddo buddsoddiad a chystadleuaeth rhwng rhwydweithiau yn unol â'n strategaeth.[2] Fe wnaethom hefyd gydnabod bod natur hirdymor buddsoddiadau mewn rhwydweithiau yn gofyn am sefydlogrwydd rheoleiddiol ac felly pennwyd disgwyliadau ynghylch rheoleiddio yn y dyfodol hyd at 2031 a thu hwnt. Mae'r broses o adolygu'r farchnad yn mynnu ein bod yn adolygu'r marchnadoedd perthnasol bob pum mlynedd gan ystyried datblygiadau diweddar a phosibl yn y farchnad, ond ein penderfyniadau yn 2021 yw'r man cychwyn ar gyfer yr adolygiad hwn.

1.5 Ers 2021, rydym wedi gweld Openreach ac amrywiaeth eang o gwmnïau eraill yn adeiladu'n sylweddol, gan roi'r DU ar y trywydd iawn i sicrhau bod rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits ar gael yn eang. Mae ein fframwaith rheoleiddio wedi bod yn sail i fuddsoddiad mewn ffeibr llawn o £3-6bn y flwyddyn, ac mae'r buddsoddiad yn dal i fynd rhagddo. Ers mis Mai 2021, mae nifer y safleoedd sydd â mynediad at ffeibr llawn wedi cynyddu o 6.9m o safleoedd (24%) i 20.7m (69%) ym mis Gorffennaf 2024, ac mae darpariaeth rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits wedi cynyddu o 11.6m o safleoedd (40%) i 25m o safleoedd

[1] Mae rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits fel arfer yn cyfeirio at rwydweithiau sy'n defnyddio ffeibr i'r adeilad (FTTP), a elwir hefyd yn rhwydweithiau ffeibr llawn a rhwydweithiau cebl sy'n gallu cynnig gwasanaethau sydd â chyflymder lawrlwytho o 1 Gbit yr eiliad o leiaf.
[2] Ofcom. 18 Mawrth 2021. Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol 2021-26.

(83%).[3] Mae'r lefel adeiladu hon yn fwy na'r hyn roeddem yn ei ddisgwyl yn 2021, gan roi mynediad i fwy byth o ddefnyddwyr a busnesau at rwydweithiau o safon sy'n gallu delio â gigabits am brisiau cynyddol ddeniadol. Mae hyn wedi eu galluogi i elwa o wasanaethau newydd ac arloesol sy'n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi twf economaidd.

**Tabl 1: Nifer y safleoedd yn y DU sydd â darpariaeth rhwydweithiau ffeibr llawn a rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits**

| | Mai 2021 | Gorffennaf 2024 |
|---|---|---|
| **Darpariaeth rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits** | 11.6m (40%) | 25m (83%) |
| **Darpariaeth rhwydweithiau ffeibr llawn** | 6.9m (24%) | 20.7m (69%) |

1.6 Ar ben hynny, mae adeiladu gan rwydweithiau sy'n cystadlu â'i gilydd wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y safleoedd sydd â dewis o rwydwaith, gyda 70% o safleoedd nawr yn gallu cael mynediad at o leiaf ddau rwydwaith (un rhwydwaith gan ddarparwr arall yn ychwanegol at Openreach), ac mae gan 22% o safleoedd fynediad at o leiaf dri rhwydwaith.[4]

1.7 Rydym yn cydnabod y camau breision y mae'r diwydiant wedi'u cymryd i gyflwyno rhwydweithiau ffeibr llawn. Ond mae mwy i'w wneud. Mae angen rhagor o fuddsoddiad i ddarparu gwasanaethau o safon i bob rhan o'r DU. Ar ben hynny, mae denu cwsmeriaid o hen rwydweithiau i ffeibr llawn yn allweddol i lwyddiant pob darparwr. Ar draws pob darparwr, mae'r nifer sy'n defnyddio ffeibr llawn yn cynyddu: ers mis Gorffennaf 2024 roedd y nifer sy'n defnyddio ffeibr llawn wedi codi, ar gyfartaledd, i 35% o'r safleoedd lle mae ffeibr llawn ar gael.[5] Rydym yn cydnabod hefyd ei bod yn cymryd amser i newydd-ddyfodiaid gael eu traed tanynt fel cystadleuwyr a'u bod yn wynebu cryn heriau o ran goresgyn manteision hirhoedledd Openreach. Mae angen i rwydweithiau newydd adeiladu sylfaen cwsmeriaid a thyfu er mwyn dod yn gystadleuwyr cynaliadwy yn y tymor hwy.

1.8 Wrth ddatblygu ein cynigion, rydym wedi ystyried nid yn unig fuddiannau defnyddwyr a busnesau'r presennol, ond hefyd y buddsoddiad, yr arloesi a'r gystadleuaeth sydd eu hangen i gyflawni ar eu cyfer yn y dyfodol. Rydym am weld cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau yn parhau i ddatblygu lle mae hyn yn gynaliadwy a lle mae'n sicrhau manteision i ddefnyddwyr. Gan fod nifer y defnyddwyr yn allweddol, mae'n bwysig bod ein gwaith rheoleiddio'n cynnig cyfle i rwydweithiau amgen cymharol effeithlon gystadlu a chynyddu nifer eu defnyddwyr yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn. Rydym hefyd eisiau parhau i hyrwyddo gweithgareddau masnachol effeithlon er mwyn ymestyn y ddarpariaeth ymhellach yn yr ardaloedd sy'n weddill, sy'n anoddach eu cyrraedd.

1.9 Mae buddsoddiad gan y sector preifat mewn rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits yn annhebygol o ddarparu ym mhobman, ac efallai na fydd ardaloedd gwledig mwy anghysbell yn gweld yr un buddsoddiad ag ardaloedd mwy trefol. Felly, yn ogystal â hyrwyddo

[3] Ofcom. 16 Rhagfyr 2021 Cysylltu'r Gwledydd 2021, a 5 Rhagfyr 2024 Cysylltu'r Gwledydd 2024. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar ddarpariaeth safleoedd preswyl.
[4] Mae ffigurau Openreach yn cynrychioli darpariaeth ei holl rwydweithiau, gan gynnwys gwasanaethau copr yn ogystal â ffeibr llawn. Bydd rhwydweithiau'r darparwyr eraill yn gallu delio â gigabits.
[5] Ofcom. 5 Rhagfyr 2024. Cysylltu'r Gwledydd 2024.

buddsoddiad masnachol, mae ein gwaith rheoleiddio yn 2021 a'n cynigion yn yr adolygiad hwn yn ategu cynlluniau cyllid cyhoeddus sy'n ceisio darparu band eang o safon i ardaloedd nad yw'r rhwydweithiau hyn yn eu cyrraedd fel arall. Mae Llywodraeth y DU yn buddsoddi £5bn yn ei chynllun Prosiect Gigabit i roi cymhorthdal i'r broses o gyflwyno rhwydweithiau yn yr ardaloedd anoddaf eu cyrraedd ledled y DU. Mae wedi dyfarnu dros 30 o gontractau, ac mae oddeutu 1m o safleoedd yn rhan o gwmpas y cynllun, gyda mwy o gaffaeliadau ar y gweill.[6] Mae hyn ochr yn ochr â rhaglenni buddsoddi band eang eraill gan y llywodraethau datganoledig: rhaglen Cyflymu Cymru yng Nghymru, rhaglen Reaching 100% (R100) yn yr Alban, a Project Sratum yng Ngogledd Iwerddon.

1.10 Yn yr adolygiad hwn, rydym hefyd yn ystyried gwasanaethau llinellau ar brydles, sef cysylltiadau capasiti uchel a ddefnyddir gan fusnesau mawr a rhwydweithiau eraill. Mae'r gwasanaethau hyn yn aml yn hanfodol i helpu busnesau i ddiwallu eu hanghenion cyfathrebiadau ac i ddarparu eu cysylltedd â'r rhyngrwyd ac â gwasanaethau yn y cwmwl. Maent hefyd yn cael eu defnyddio gan weithredwyr rhwydweithiau sefydlog a symudol i ddarparu cysylltedd fel rhan o'u rhwydweithiau eu hunain, gan gynnwys gan weithredwyr rhwydweithiau symudol i gysylltu â'u safleoedd cell. Felly maent yn bwysig o ran cefnogi gwasanaethau ar gyfer pob defnyddiwr ledled y DU. Yn 2021 roeddem wedi ceisio hyrwyddo buddsoddiad mewn rhwydweithiau sy'n darparu llinellau ar brydles (yn ogystal â'r rheini sy'n darparu gwasanaethau band eang) ac rydym wedi gweld twf sylweddol gan ddarparwyr sy'n canolbwyntio ar fusnes, ac mae darparwyr eraill sy'n cefnogi gwasanaethau band eang a llinellau ar brydles hefyd yn ceisio cystadlu. Rydym am barhau i hyrwyddo cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau lle bo hynny'n ymarferol er mwyn darparu gwell cysylltedd, gwasanaeth o safon uwch a phrisiau is ar gyfer y gwasanaethau hanfodol hyn, ochr yn ochr â diogelu defnyddwyr mewn ardaloedd lle nad yw'r gystadleuaeth yn debygol o gyflawni'r canlyniadau da hyn ar ei phen ei hun.

1.11 Mae ein cynigion yn yr adolygiad hwn wedi'u crynhoi isod.[7]

### Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

Rydym yn cynnig bod gan BT bŵer sylweddol yn y farchnad (SMP) mewn nifer o farchnadoedd, ac felly rydym yn cynnig fframwaith rheoleiddio i fynd i'r afael â phryderon y gystadleuaeth sy'n codi o ganlyniad.[8] Mae ein hatebion arfaethedig yr un fath ag yn ein hadolygiad diwethaf, ac eithrio lle mae datblygiadau diweddar neu bosibl yn y farchnad yn dangos bod angen diweddariad i roi sefydlogrwydd rheoleiddiol a chynnal cymhellion ar gyfer buddsoddi a chystadleuaeth rhwng rhwydweithiau. Dyma ein cynigion:

**Cynnal mynediad at bolion telegraff a phibellau tanddaearol Openreach:** Rydym yn cynnig y bydd Openreach yn dal i orfod caniatáu i bob gweithredwr rhwydwaith ddefnyddio a gweithredu ei rwydwaith ffeibr ei hun gan ddefnyddio ei seilwaith drwy ei gynhyrchion Mynediad Seilwaith Ffisegol (PIA). Er mwyn sicrhau tegwch rhwng Openreach a gweithredwyr rhwydwaith eraill, rydym yn cynnig y bydd Openreach yn parhau i fod yn ddarostyngedig i rwymedigaeth lem sy'n atal gwahaniaethu amhriodol ac y dylai'r ffioedd a delir gan weithredwyr eraill adlewyrchu cyfran deg o gostau Openreach, ar sail eu defnydd o

[6] BDUK. 27 Tachwedd 2024. Diweddariad cynnydd Prosiect Gigabit.
[7] Yn yr adolygiad hwn, rydym yn ystyried y DU gyfan ac eithrio Hull. KCOM yw'r darparwr presennol yn ardal Hull, felly rydym yn adolygu'r marchnadoedd perthnasol yn ardal Hull mewn adolygiad marchnad ar wahân.
[8] Mae ein cynigion SMP yn berthnasol i BT Group. Fodd bynnag, mae'r marchnadoedd rydym wedi'u hystyried yn ymwneud â gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan Openreach. Felly, yn y crynodeb hwn rydym yn cyfeirio at Openreach wrth nodi ein hatebion arfaethedig.

seilwaith Openreach. Er bod ein hagwedd at ffioedd rhentu PIA yn cyd-fynd yn fras â'r hyn a nodwyd yn 2021, rydym wedi gwneud rhai addasiadau i sicrhau bod tegwch.

**Parhau â'n dull o reoleiddio band eang cyfanwerthol yn wahanol mewn gwahanol rannau o'r DU, i adlewyrchu'r potensial ar gyfer cystadleuaeth effeithiol rhwng rhwydweithiau:** Rydym yn cydnabod bod amodau cystadleuol yn wahanol ledled y DU ar gyfer cyflenwi gwasanaethau band eang cyfanwerthol, ac felly rydym yn cynnig cynnal ein dull gweithredu cyffredinol i adlewyrchu hyn. Er ein bod wedi gweld buddsoddiad sylweddol mewn rhwydweithiau ers 2021 gan gystadleuwyr Openreach, nid ydym yn credu bod unrhyw ardaloedd eto lle mae'r gystadleuaeth wedi'i sefydlu'n ddigonol neu'n effeithiol (hynny yw, 'Ardal 1').[9] Felly, rydym yn cynnig diffinio dwy ardal ddaearyddol wahanol:

- *Ardal 2, lle mae cystadleuaeth berthnasol a chynaliadwy, neu lle mae'n debygol y bydd potensial ar gyfer hynny.* Rydym yn cynnig bod yr ardal hon yn cael ei hehangu o 70% i gwmpasu 90% o safleoedd y DU, gan adlewyrchu gwaith adeiladu mwy eang (gwirioneddol ac wedi'i gynllunio) gan rwydweithiau amgen nag a ragwelwyd yn 2021. Rydym yn cynnig parhau i bennu rheoliadau sy'n hyrwyddo buddsoddiad a chystadleuaeth gan ddarparwyr eraill (gan gynnwys cynnal amgylchedd rheoleiddio sefydlog ar gyfer y buddsoddiadau hynny sydd eisoes wedi'u gwneud), ar yr un pryd â darparu diogelwch i ddefnyddwyr wrth i gystadleuaeth ddatblygu. Rydym yn cynnig gwneud hyn drwy barhau i osod prisiau unffurf wedi'u haddasu yn ôl chwyddiant ar gyfer cynnyrch band eang cyflym iawn sylfaenol, gan ganiatáu hyblygrwydd o ran prisiau ar gyfer gwasanaethau cyflymder eraill. Er mwyn sicrhau bod y cap hwn ar brisiau yn parhau i fod yn effeithiol, rydym yn cynnig symud o reoleiddio cynhyrchion Openreach sy'n cefnogi cyflymderau lawrlwytho o hyd at 40 Mbit yr eiliad, i'r rheini sy'n cefnogi hyd at 80 Mbit yr eiliad. Byddai hyn yn unol â newidiadau yn y farchnad sy'n cael eu sbarduno gan y ffaith bod defnyddwyr yn defnyddio mwy a mwy o ddata.
- *Ardal 3, lle nad oes cystadleuaeth berthnasol a chynaliadwy, a lle mae'n debygol nad oes potensial ar gyfer hynny.* Yn y 10% sy'n weddill o'r DU, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar roi cyfle i Openreach adennill costau rhesymol ei fuddsoddiadau o ran cyflwyno ei rwydwaith ffeibr llawn yn fasnachol, ond yn cydnabod y rôl bwysig y bydd cymhorthdal cyhoeddus yn ei chwarae o ran cyflwyno rhwydweithiau yn yr ardal hon. Rydym hefyd yn ceisio hyrwyddo cystadleuaeth ar sail mynediad at rwydwaith Openreach er mwyn diogelu defnyddwyr. Fel yn Ardal 2, rydym yn cynnig symud y gwaith o reoleiddio'r cap prisiau o gynhyrchion Openreach sy'n cefnogi cyflymderau lawrlwytho o hyd at 40 Mbit yr eiliad i'r rheini sy'n cefnogi hyd at 80 Mbit yr eiliad, a gosod prisiau unffurf, wedi'u haddasu yn ôl chwyddiant, ar gyfer y cynhyrchion hyn.

**Prisiau cyfanwerthol teg ar gyfer Openreach a rhwydweithiau eraill:** Er bod Openreach yn gallu gwneud ei wasanaethau ffeibr llawn yn ddeniadol i'w gwsmeriaid Darparwyr Gwasanaethau Rhyngrwyd, rydym yn cynnig cadw'r cyfyngiadau ar gytundebau a allai lesteirio buddsoddiad a datblygu cystadleuaeth gynaliadwy rhwng rhwydweithiau. Yn benodol, rydym yn cynnig parhau i gyfyngu ar allu Openreach i bennu gostyngiadau daearyddol ac ymestyn hyn i gynnwys yr holl ffioedd (nid dim ond ffioedd rhent fel yn yr adolygiad blaenorol). Rydym hefyd yn poeni y gallai Openreach gynnig telerau masnachol sy'n atal darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd rhag defnyddio rhwydweithiau sy'n cystadlu â'i

[9] Rydym yn cynnig y byddai Ardal 1 yn cael ei diffinio ar sail y ffaith bod presenoldeb presennol (a heb ei gynllunio) gan ddau rwydwaith sy'n cystadlu â'i gilydd ac sydd wedi'u sefydlu'n ddigonol.

gilydd, gan amddifadu'r rhwydweithiau hyn o'r galw a thanseilio datblygiad cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau yn y tymor hir. Rydym yn cynnig y dylai Openreach barhau i orfod rhoi hysbysiad cyn cyflwyno telerau masnachol penodol, ac y dylid ymestyn y cyfnod rhybudd hwn o 90 diwrnod i 120 diwrnod. Mae hyn yn caniatáu i ni asesu unrhyw gytundebau cyn iddynt ddod i rym. Rydym hefyd yn darparu canllawiau wedi'u diweddaru ar y mathau o gynigion masnachol y gallem eu hystyried yn broblem.

**Cefnogi'r broses o symud o hen rwydweithiau a gadael cyfnewidfeydd:** Wrth i Openreach osod rhwydwaith ffeibr llawn newydd yn lle'r hen rwydwaith copr, ni ddylai orfod wynebu costau diangen wrth redeg dau rwydwaith cyfochrog. Rydym yn cynnig parhau â'n cefnogaeth i symud yn raddol oddi wrth rwydwaith copr Openreach, gan hwyluso amcanion ehangach yr adolygiad hwn, gan gynnwys hyrwyddo cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau a diogelu defnyddwyr. Cynigiwn drosglwyddo rheoleiddio (gan gynnwys diogelu prisiau) yn raddol o wasanaethau copr i wasanaethau ffeibr llawn yn unol â'r dull a nodwyd yn 2021. Bydd Openreach hefyd yn dechrau gadael cyfnewidfeydd yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn ac ar hyn o bryd mae'n trafod telerau ymadael penodol gyda'i gwsmeriaid. Rydym yn cefnogi amcanion Openreach, sy'n rhoi cyfle i Openreach a darparwyr eraill gyfuno seilwaith, lleihau'r defnydd o ynni a chynyddu effeithlonrwydd. Rydym yn cynnig cynnal ein rheoleiddio presennol lle bo hynny'n briodol, er mwyn lliniaru'r risgiau i gystadleuaeth a defnyddwyr yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn, yn ogystal â chynnig newidiadau i reolau ar gyfer gwasanaethau sy'n cysylltu cyfnewidfeydd â'i gilydd, i adlewyrchu'r broses o adael cyfnewidfeydd.

**Parhau â'n dull o reoleiddio llinellau ar brydles yn wahanol mewn gwahanol rannau o'r DU, i adlewyrchu lefel y gystadleuaeth bresennol neu bosibl:** Rydym yn cydnabod bod amodau cystadleuol yn wahanol ar draws y DU ar gyfer cyflenwi gwasanaethau llinellau ar brydles, ac rydym yn cynnig ffiniau gwahanol yn y farchnad o gymharu â gwasanaethau band eang cyfanwerthol sy'n adlewyrchu gwahaniaethau yn y ffordd mae'r marchnadoedd wedi datblygu ers 2021. Nid ydym yn edrych eto ar ein hasesiad blaenorol o Ardal Canol Llundain (CLA), sydd wedi cael ei dadreoleiddio ers 2019. Mewn mannau eraill, rydym yn cynnig rheoleiddio gwahanol mewn gwahanol ardaloedd fel a ganlyn:[10]

- Ardal *Cyrhaeddiad Uchel y Rhwydwaith (HNR)* lle mae mwy o gystadleuaeth o lawer rhwng rhwydweithiau llinellau ar brydles, ond mae gan BT bŵer sylweddol yn y farchnad o hyd. Yn yr ardal hon, sy'n cynnwys 9% o sectorau cod post y DU, rydym yn cynnig y dylai Openreach ddarparu mynediad at ei wasanaethau llinellau ar brydles am brisiau teg a rhesymol.
- *Ardal 2, lle mae cystadleuaeth berthnasol a chynaliadwy, neu lle mae'n debygol y bydd potensial ar gyfer hynny.* Yn yr ardal hon, sy'n cynnwys 42% o sectorau cod post y DU, rydym yn cynnig parhau i fynnu bod Openreach yn darparu mynediad at ei wasanaethau llinellau ar brydles gweithredol, ac yn gosod capiau pris unffurf, wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant.
- *Ardal 3, lle nad oes cystadleuaeth berthnasol a chynaliadwy, a lle mae'n debygol nad oes potensial ar gyfer hynny.* Yn yr ardal hon, sy'n cynnwys 46% o sectorau cod post y DU, rydym yn cynnig parhau i fynnu bod Openreach yn darparu ffeibr tywyll ac yn gosod prisiau ar sail ei gostau rhesymol. Ar ben hynny, rydym yn cynnig parhau i fynnu bod Openreach yn darparu mynediad at ei wasanaethau llinellau ar brydles gweithredol. Ar gyfer gwasanaethau gweithredol lled band uwch, rydym yn cynnig

[10] Dangosir maint yr ardal HNR, Ardal 2 ac Ardal 3 fel canran o'r sectorau cod post, ac eithrio Hull. Nid yw cyfanswm y tair ardal yn hafal i 100%, ac mae gweddill y sectorau cod post yn y CLA.

cynnal capiau pris unffurf, wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant wrth i'r farchnad newid i ffeibr tywyll. Ar gyfer gwasanaethau gweithredol lled band is (1 Gbit yr eiliad ac is), rydym yn cynnig gostwng prisiau yn unol â'r costau gan fod ffeibr tywyll yn ddewis arall llai deniadol na'r hyn yr oeddem yn ei ddisgwyl yn 2021.

**Marchnad cysylltedd rhyng-gyfnewid (IEC):** Mae darparwyr telegyfathrebiadau yn defnyddio gwasanaethau IEC i gysylltu cyfnewidfeydd BT sydd wedi'u lleoli mewn gwahanol ardaloedd daearyddol er mwyn darparu traffig rhwng eu cwsmeriaid a'u rhwydweithiau eu hunain. Mae gwasanaethau IEC fel arfer yn defnyddio cynhyrchion tebyg i'r rheini yn y farchnad mynediad llinellau ar brydles, fel llinellau ar brydles ar wahanol led band a ffeibr tywyll. Rydym yn cynnig dadreoleiddio cyfnewidfeydd lle bu cynnydd ym mhresenoldeb cystadleuwyr ers ein hadolygiad diwethaf fel bod Openreach nawr yn wynebu dau gystadleuydd neu fwy. Mewn achosion lle mae Openreach yn wynebu un cystadleuydd neu ddim un cystadleuydd mewn cyfnewidfa, rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol bod Openreach yn darparu ffeibr tywyll, gan osod prisiau i adlewyrchu costau rhesymol. O'i gymharu â'n dull gweithredu yn 2021, mae hyn yn ymestyn argaeledd ffeibr tywyll i gyfnewidfeydd lle mae un cystadleuydd yn bresennol neu gerllaw, oherwydd nid ydym yn disgwyl rhagor o fuddsoddiad cystadleuol sylweddol yn y cyfnewidfeydd hyn. Mae ein cynigion yn ceisio hyrwyddo cystadleuaeth drwy fynediad at ffeibr tywyll, sydd, yn ein barn ni, yn ateb deniadol ar gyfer gwasanaethau IEC, a diogelu defnyddwyr rhag prisiau uchel. Rydym hefyd yn cynnig parhau i fynnu bod Openreach yn darparu gwasanaethau IEC gweithredol o'r cyfnewidfeydd hyn ac yn cynnig gosod prisiau unffurf wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant.

**Ansawdd y gwasanaeth (QoS):** Rydym yn cynnig cynnal y rheolau presennol, yn fras, ar gyfer pa mor gyflym mae'n rhaid i Openreach drwsio a gosod ei brif gynhyrchion mynediad rhwydwaith mewn marchnadoedd sy'n cael eu rheoleiddio, gan gynnwys band eang copr, Ether-rwyd a ffeibr tywyll. Fodd bynnag, er mwyn adlewyrchu'r gostyngiad yng ngwasanaethau band eang copr Openreach dros gyfnod yr adolygiad, rydym yn cynnig addasu sut mae perfformiad yn cael ei asesu. Lle nad oes gan gwsmeriaid ddewis ond dibynnu ar Openreach am eu gwasanaethau band eang ffeibr llawn (hynny yw, Ardal 3), rydym yn cynnig safonau Ansawdd Gwasanaeth ôl-stop newydd.

**Ein dull gweithredu y tu hwnt i 2031:** Yn unol â'r dull gweithredu a nodwyd gennym yn 2021, rydym yn cydnabod bod gan y buddsoddiadau sy'n cael eu gwneud gan bob gweithredwr rhwydwaith mewn rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits gyfnodau talu'n ôl hir a bod cystadleuaeth berthnasol yn cymryd amser i ddatblygu a dod yn gynaliadwy. Er y bydd ein penderfyniadau yn y dyfodol yn dibynnu ar yr amgylchiadau sy'n bodoli pan fyddwn yn cynnal ein hadolygiadau nesaf, rydym yn ailadrodd sut byddem yn mynd i'r afael â phenderfyniadau yn y dyfodol. Os byddwn yn credu bod buddsoddiad a chystadleuaeth gynaliadwy yn dal yn y broses o ddatblygu y tu hwnt i 2031, byddem yn disgwyl parhau i reoleiddio mewn ffordd sy'n parhau i gefnogi hyn. Os oes angen symud at reoleiddio Openreach yn seiliedig ar gostau yn y dyfodol, byddwn yn anrhydeddu'r egwyddor cynnig teg. Mae hyn yn golygu, wrth osod unrhyw reolaethau o ran prisiau, byddem yn disgwyl caniatáu i BT gadw'r fantais (hynny yw, enillion sy'n fwy na'i gost cyfalaf y mae wedi'i hennill hyd at y pwynt hwnnw), yn ogystal â sicrhau ei fod yn gallu ennill ei gostau cyfalaf wrth symud ymlaen. Mae hyn yn golygu y byddai gan BT gyfle i ennill elw uwch na'i gost cyfalaf dros y cylch buddsoddi ffeibr cyfan.

1.12 Rydym yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar ein cynigion. Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw 12 Mehefin 2025. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein penderfyniadau terfynol ym mis Mawrth 2026.

# 2. Cyflwyniad a chrynodeb o'r cynigion

2.1 Mae'r adran hon yn disgrifio'r fframwaith rheoleiddio, yn nodi'r cyd-destun strategol ar gyfer ein cynigion a sut mae'n cyd-fynd â'n dyletswyddau cyfreithiol, ac yn rhoi crynodeb manwl o'n penderfyniadau arfaethedig ar ddiffiniad y farchnad a chanfyddiadau ac atebion SMP.

2.2 Fe wnaethom gychwyn ein hadolygiad ym mis Mawrth 2024.[11] Ers hynny, rydym wedi ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, sydd wedi darparu nifer o gyflwyniadau. Rydym hefyd wedi casglu data drwy geisiadau ffurfiol am wybodaeth. Rydym wedi ystyried ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid a'r data rydym wedi'i gasglu yn ein dadansoddiad. Isod, rydym yn trafod ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid hyd yma ymhellach.

2.3 Rydym yn gwneud cynigion mewn perthynas â'r marchnadoedd canlynol:

- Y farchnad seilwaith ffisegol.
- Y farchnad mynediad lleol cyfanwerthol (WLA).
- Y farchnad mynediad llinellau ar brydles (LLA).
- Y farchnad cysylltedd rhyng-gyfnewid (IEC).

## Y Fframwaith Rheoleiddio

### Proses adolygu'r farchnad

2.4 Mae Atodiad 5 yn rhoi trosolwg o'r broses o adolygu'r farchnad. Fel sy'n ofynnol gan y fframwaith rheoleiddio, rydym wedi adolygu'r marchnadoedd a restrir uchod mewn tri cham dadansoddol:

- rydym wedi nodi a diffinio'r marchnadoedd perthnasol (diffiniad o'r farchnad);
- rydym wedi asesu a yw'r marchnadoedd yn ddigon cystadleuol, sy'n cynnwys asesu a oes gan unrhyw weithredwr bŵer sylweddol yn y farchnad (SMP) yn unrhyw un o'r marchnadoedd perthnasol (dadansoddiad o'r farchnad); a
- phan fyddwn yn dod o hyd i bŵer sylweddol yn y farchnad, rydym yn defnyddio rhwymedigaethau rheoleiddio priodol, ar sail natur y problemau cystadleuaeth a nodwyd yn y marchnadoedd perthnasol (atebion).

### Rhagolwg

2.5 Mae adolygiadau o'r farchnad yn rhagweld sut gallai amodau cystadleuol newid yn y dyfodol. At ddibenion yr adolygiad hwn, ar gyfer pob marchnad rydym wedi cynnal asesiad blaengar o'r farchnad, gan ystyried datblygiadau disgwyliedig neu ragweladwy a allai effeithio ar gystadleuaeth yn y farchnad am y cyfnod hyd at fis Mawrth 2031.

[11] Ofcom. 24 Mawrth 2024. Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau 2026.

2.6 Mae natur arfaethedig ein hasesiad dros y cyfnod hwn yn golygu ein bod wedi casglu amrywiaeth o dystiolaeth i asesu amodau gwirioneddol y farchnad yn ogystal â llunio rhagolygon a fydd, yn ein barn ni, yn adlewyrchu datblygiadau'n briodol dros amser. Pan fo'n briodol, rydym wedi arfer ein barn reoleiddio i ddod i benderfyniadau ar y dystiolaeth sydd ger ein bron gyda'r bwriad, yn y pen draw, o fynd i'r afael â'r pryderon ynghylch cystadleuaeth rydym yn eu nodi er mwyn hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn y marchnadoedd hyn.

## Cyd-destun strategol

2.7 Roedd ein Hadolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol (DCR) yn 2016 yn nodi sut roeddem yn bwriadu arfer ein swyddogaethau i reoleiddio marchnadoedd cyfathrebiadau yn unol â'n dyletswyddau. Roedd yn nodi ein bwriad o reoleiddio er mwyn annog cyflwyno rhwydweithiau ffeibr llawn newydd ar raddfa fawr i gartrefi a busnesau, sicrhau bod gwasanaethau band eang gwibgyswllt sy'n cystadlu â'i gilydd ar gael yn eang a chefnogi'r gwaith o gyflwyno rhwydweithiau 5G.[12]

2.8 Mae'r strategaeth hon yn cael ei hadlewyrchu yng Nghynllun Gwaith blynyddol Ofcom, lle mai un o'r prif flaenoriaethau i ni yw darparu rhyngrwyd y gallwn ddibynnu arno.[13] Rydym yn ceisio cyflawni hyn drwy sicrhau'r canlyniadau canlynol i ddefnyddwyr:

- Rhwydweithiau o ansawdd uchel ar gael lle mae eu hangen.
- Rhwydweithiau dibynadwy a diogel y gall pobl ddibynnu arnyn nhw.
- Pobl yn ymddiried yn y rhwydweithiau a'r gwasanaethau maent yn eu defnyddio.
- Bod defnyddwyr yn hyderus ac yn gallu ymgysylltu a gwneud dewisiadau yn y farchnad er mwyn cael y gwasanaethau priodol iddyn nhw.
- Bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wasanaethau sy'n fforddiadwy.

2.9 Mae cyflwyno rhwydweithiau ffeibr llawn newydd ar raddfa fawr yn helpu i gyflawni'r flaenoriaeth allweddol hon. Mae rhwydweithiau ffeibr llawn newydd, ochr yn ochr â rhwydweithiau cebl ffeibr/cyfechelog hybrid presennol, yn gallu cefnogi gwasanaethau sydd â chyflymder lawrlwytho o dros 1 Gbit yr eiliad, ac fe'u gelwir yn rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits.[14]

2.10 Ein barn ni yw bod rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits yn fuddiol i ddefnyddwyr gwasanaethau cyfathrebiadau (defnyddwyr a busnesau fel ei gilydd) a dinasyddion yn gyffredinol oherwydd:

- maent yn cefnogi gwasanaethau band eang cyflymach sydd â chapasiti uwch o gymharu â hen rwydweithiau sy'n dibynnu ar geblau copr a gallant ddarparu gwasanaethau band eang cymesur (hynny yw, gwasanaethau lle mae'r cyflymder lanlwytho a lawrlwytho yr un fath);

[12] Rhwydweithiau band eang gwibgyswllt yw'r rheini sy'n gallu cefnogi gwasanaethau sydd â chyflymder lawrlwytho o 300 Mbit yr eiliad o leiaf.
[13] Ofcom. 26 Mawrth 2024. [Cynllun Gwaith Ofcom 2024/25](). Rydym wedi ymgynghori ar ein Cynllun Gwaith ar gyfer 2025/26. Gweler Ofcom. 4 Rhagfyr 2024. Cynllun Gwaith Ofcom 2025/26.
[14] Er bod y rhwydweithiau cebl wedi cael eu cyflwyno beth amser yn ôl, mae rhwydweithiau ffeibr llawn yn cael eu cyflwyno nawr, ac felly rydym yn canolbwyntio ar ddefnyddio rhwydweithiau ffeibr llawn, gan ystyried y rhwydwaith cebl wrth ystyried cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits.

- nid yw eu perfformiad yn dirywio dros bellter, fel sy'n wir am gopr, ac nid yw eu perfformiad yn dirywio yn sgil ymyriant rhwng y llinellau sy'n cael eu defnyddio gan wahanol gwsmeriaid;[15]
- maent yn debygol o fod â chyfraddau diffygion is, er enghraifft gan nad ydynt yn dueddol o fynd yn ddiffygiol yn sgil dŵr yn mynd i mewn iddynt a'u rhydu;
- maent yn gallu cynnig manteision eraill o ran perfformiad; a [16]
- maent yn addas ar gyfer y dyfodol oherwydd bod modd eu huwchraddio i gefnogi gwasanaethau cyflymder uwch wrth i'r galw gynyddu.

2.11 Ein strategaeth yw hyrwyddo buddsoddiad mewn rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits drwy gystadleuaeth rhwng rhwydweithiau mewn ardaloedd lle mae hyn yn ymarferol. Rydym yn credu bod cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau yn dwyn manteision sylweddol posibl i ddefnyddwyr, o gymharu â chystadleuaeth sy'n seiliedig ar fynediad wedi'i reoleiddio at wasanaethau cyfanwerthol sy'n cael eu darparu gan un rhwydwaith.

2.12 Mae cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau yn creu cymhellion cryfach i ddenu a chadw cwsmeriaid drwy gynnig y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, ac felly mae'n sbardun mwy effeithiol ar gyfer arloesi a buddsoddi mewn rhwydweithiau o safon na chystadleuaeth sy'n seiliedig ar fynediad. Y rheswm am hyn yw bod gan ddarparwyr rhwydwaith fwy o gyfle o lawer i wahaniaethu rhwng cynhyrchion a gallant fynd ati i geisio ennill cwsmeriaid a sicrhau elw uwch drwy gynnig gwasanaeth gwell na'u cystadleuwyr. Er enghraifft, gall darparwyr rhwydweithiau wahaniaethu ar nodweddion pwysig fel cyflymder, dibynadwyedd ac ansawdd gwasanaeth. Mae'r bygythiad y mae hyn yn ei achosi i hen rwydweithiau o golli cwsmeriaid i gystadleuwyr rhwydwaith newydd a phresennol yn sbardun pwerus i barhau i fuddsoddi mewn rhwydweithiau o safon, gan sicrhau manteision tymor hir i ddefnyddwyr.

2.13 Drwy amlygu mwy o'r gadwyn gwerth i gystadleuaeth, mae cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau hefyd yn gymhelliant cryf i gwmnïau arloesi, dod yn fwy effeithlon a lleihau costau. O ganlyniad, mae gan rymoedd y farchnad rôl lawer cryfach o ran llywio penderfyniadau ynghylch pa rwydweithiau i'w hadeiladu, pa dechnolegau i'w defnyddio, a sut mae eu darparu'n fwy cost-effeithiol.

2.14 Rydym yn cydnabod y gallai hyrwyddo cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau olygu dyblygu buddsoddiadau mewn rhwydweithiau. Fodd bynnag, bydd yn arwain at fanteision sylweddol i ddefnyddwyr yn y tymor hwy yn sgil arloesi (gan gynnwys arloesi i gynyddu effeithlonrwydd a lleihau costau), dewis, cymhellion cryfach i brisio'n ddoeth i ddenu cwsmeriaid, a gwasanaeth o safon uwch.

2.15 Rydym wedi gweld y manteision hyn yn dechrau cael eu cyflawni yn dilyn y dull gweithredu a nodwyd gennym yn ein hadolygiad o'r farchnad yn 2021, gydag ystod eang o rwydweithiau'n cyflwyno'n helaeth, sydd wedi arwain at fwy o lawer o adeiladu gan Openreach na'r disgwyl. Mae'r rhwydweithiau mwy newydd hyn hefyd wedi cyflwyno gan

[15] Ar rwydweithiau copr, gall cyflymderau ddioddef yn enwedig ar adegau prysur oherwydd ymyriant electromagnetig rhwng llinellau sy'n cael eu bwndelu'n agos at ei gilydd.

[16] Er enghraifft, efallai y bydd rhwydweithiau ffeibr llawn yn well o ran oedi, cryndod a cholli pecynnau, yn rhannol oherwydd bod cyfarpar electronig wedi cael ei symud o'r rhwydwaith mynediad copr. 'Oedi' yw'r ffordd o fesur yr amser a gymerir i becyn deithio o un pen o'r rhwydwaith i'r llall. 'Cryndod' yw'r ffordd o fesur yr amrywiad mewn oedi rhwng pecynnau. 'Colli pecynnau' yw'r mesur o faint o becynnau sy'n cael eu colli wrth groesi'r rhwydwaith.

ddefnyddio technolegau mwy newydd, gan ddarparu gwasanaethau cyflymach byth i ddefnyddwyr, a sbarduno gwaith uwchraddio gan Openreach. Rydym wedi gweld prisiau gwasanaethau sy'n cael eu darparu dros ffeibr llawn yn gostwng. Ac mae darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd mawr wedi dod i gytundebau masnachol gyda nifer o rwydweithiau i ddarparu eu gwasanaethau, sy'n cyflawni, neu sydd â'r potensial o gyflawni, manteision o ran prisiau, cyflymderau ac ansawdd gwasanaethau i fwy a mwy o ddefnyddwyr. Rydym yn trafod y pwyntiau hyn ymhellach isod.

2.16 Rydym yn cydnabod efallai na fydd cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau yn ymarferol ym mhobman. Ein strategaeth mewn ardaloedd lle mae cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau yn annhebygol yw parhau i ddarparu cymhellion ar gyfer buddsoddiad masnachol (gan Openreach yn fwyaf tebygol) a darparu mynediad i rwydwaith gweithredwyr SMP i hyrwyddo cystadleuaeth ymhellach i lawr y gadwyn.

## Gweithredu ein strategaeth a'r canlyniadau hyd yma

### Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol 2021 (Adolygiad 2021)

2.17 Yn ein hadolygiad o farchnadoedd telegyfathrebiadau sefydlog cyfanwerthol yn 2021, ein nod oedd ceisio rhoi ein strategaeth ar waith a sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr drwy gymorth parhaus i gystadleuaeth mewn rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits mewn cynifer o ardaloedd yn y DU â phosibl.

2.18 Felly, nod ein gwaith rheoleiddio oedd ceisio annog Openreach a chwmnïau eraill i fuddsoddi mewn rhwydweithiau o'r fath er mwyn hyrwyddo cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau. Mewn ardaloedd yn y DU lle nad oedd yn debygol y byddai cystadleuaeth berthnasol a chynaliadwy i Openreach o ran cyflwyno rhwydweithiau sy'n cystadlu â'i gilydd yn fasnachol, fe wnaethom bennu rheoliadau er mwyn hyrwyddo buddsoddiad gan Openreach a sicrhau mynediad priodol at gystadleuwyr er budd defnyddwyr.

2.19 Roedd economeg adeiladu a gweithredu rhwydweithiau telegyfathrebiadau yn golygu nad oeddem yn disgwyl cael rhwydweithiau a oedd yn cystadlu â'i gilydd ym mhob rhan o'r DU. Fe wnaethom labelu'r ardaloedd a oedd, yn ein barn ni, â'r potensial neu'n debygol o fod â'r potensial ar gyfer cystadleuaeth berthnasol a chynaliadwy fel Ardal 2.[17] Roedd yr ardaloedd hyn yn cynnwys 70% o safleoedd yn y DU. Yn yr ardaloedd hyn, fe geisiom greu'r amodau a fyddai'n caniatáu i ddarparwyr rhwydweithiau amgen adeiladu ac i Openreach ymateb i'r bygythiad cystadleuol a achosir gan y rhwydweithiau amgen hyn, drwy fuddsoddi mewn cyflwyno ei rwydwaith ffeibr llawn ei hun.[18]

2.20 Yn y 30% arall o'r DU lle'r oeddem o'r farn bod cystadleuaeth berthnasol a chynaliadwy yn annhebygol (a labelwyd yn Ardal 3), ymrwymodd Openreach i Ofcom y byddai'n adeiladu ffeibr llawn i 3.2 miliwn o safleoedd yn fasnachol erbyn mis Mawrth 2026. O ganlyniad, er mwyn cefnogi buddsoddiad gan Openreach a darparu mynediad at rwydwaith Openreach fel bod defnyddwyr yn gallu elwa o fuddsoddiad Openreach, fe wnaethom osod yr un

[17] Dywedwyd y byddai Ardal 1 yn cynnwys ardaloedd lle'r oedd o leiaf ddau rwydwaith sefydledig a oedd yn cystadlu â BT ond ni ddaethom o hyd i unrhyw le oedd yn bodloni'r amodau hyn yn Adolygiad 2021.

[18] Mae rhwydwaith amgen yn ddarparwr rhwydwaith, ar wahân i Openreach neu Virgin Media O2, sy'n gweithredu yn y DU ac sy'n adeiladu ei seilwaith rhwydwaith ei hun ar gyfer darparu gwasanaethau band eang cyfanwerthol a/neu fanwerthol. Mae rhai rhwydweithiau amgen hefyd yn cynnig gwasanaethau llinellau ar brydles.

amodau rheoleiddiol yn fras yn Ardal 3 ag yn Ardal 2. Roedd hyn hefyd yn cefnogi buddsoddiad masnachol gan rwydweithiau amgen lle'r oeddent yn teimlo bod hyn yn ddeniadol.

2.21 Fe wnaethom hefyd gydnabod bod natur hirdymor buddsoddiadau mewn rhwydweithiau yn gofyn am eglurder a sefydlogrwydd o ran rheoleiddio ac felly fe wnaethom osod y disgwyliad y byddem yn cynnal dull gweithredu cyson yn y cyfnod rhwng 2021 a 2031 lle'r oedd y dystiolaeth yn dangos bod ein strategaeth yn gweithio.

## Datblygiadau yn y farchnad yn dilyn Adolygiad 2021

2.22 Ers yr Adolygiad, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol tuag at gyflawni ein hamcanion strategol.

2.23 Mae llawer o gwmnïau, gan gynnwys Openreach, wedi buddsoddi'n sylweddol mewn rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits ledled y DU. Mae rhwydweithiau wedi cael eu cyflwyno, neu maent yn cael eu cyflwyno gan amrywiaeth eang o gwmnïau, y mae llawer ohonynt yn defnyddio mynediad at bibellau a pholion Openreach fel rhan bwysig o'r gwaith adeiladu. Ym mis Rhagfyr 2024, roedd dros 140 o ddarparwyr eisoes wedi cyflwyno rhwydwaith gan ddefnyddio mynediad at seilwaith ffisegol Openreach (neu wedi rhoi gorchmynion i wneud hynny). Roedd y darparwyr hyn wedi archebu 185,000 km o bibelli, ac roedd dros 111,000 km eisoes wedi cael eu defnyddio. Roeddent wedi archebu tua 1.3m o atodiadau i bolion, ac roedd 830,000 o'r rheini eisoes wedi cael eu defnyddio.[19]

2.24 Mae'r rhwydweithiau hyn a gyflwynir yn amrywio o wasanaethu miliynau o safleoedd, yn bennaf mewn ardaloedd trefol a maestrefol, i ardaloedd llai, mwy gwledig yn aml. Yn ei dro, rydym wedi gweld Openreach yn cynyddu ei gynlluniau adeiladu dro ar ôl tro mewn ymateb i ddarparwyr eraill yn cyflwyno eu rhwydweithiau. Yn 2019, dywedodd fod targed o 15 miliwn o safleoedd wedi'u pasio erbyn canol y degawd hwn, ac yn 2020 cynyddodd y targed hwn i 20 miliwn o safleoedd wedi'u pasio, ac mae ganddo nawr darged i adeiladu 25 miliwn o safleoedd wedi'u pasio erbyn diwedd 2026 gyda'r uchelgais o basio 30 miliwn o safleoedd erbyn 2030.[20]

2.25 Bu cryn dipyn o adeiladu mewn ardaloedd mwy gwledig – mae ein dull o gymell adeiladu yn Ardal 3 drwy osod dull prisio a oedd yn caniatáu i Openreach adennill ei gostau cyflwyno yn yr ardaloedd cost uwch hyn wedi bod yn llwyddiannus. Mae Openreach eisoes wedi cyflawni ei ymrwymiad i adeiladu i 3.2m o safleoedd yn Ardal 3, a'i darged nawr yw 6.2m o safleoedd gwledig erbyn diwedd 2026.[21] Mae rhwydweithiau amgen hefyd wedi sicrhau darpariaeth sylweddol mewn ardaloedd mwy gwledig, gydag ychydig dros 40% o safleoedd yn Ardal 3 yn gallu cael gafael ar o leiaf un darparwr ar wahân i Openreach.[22]

2.26 Mae adeiladu gan nifer o ddarparwyr hefyd wedi sbarduno arloesi o ran y defnydd o dechnolegau gwahanol, gyda rhai rhwydweithiau amgen yn defnyddio'r dechnoleg

[19] Ffynhonnell: Openreach. Pan fydd nifer o ddefnyddwyr PIA yn defnyddio'r un bibell neu'n cysylltu ceblau â'r un polyn, mae hyn yn cael ei gyfrif sawl gwaith yn y ffigurau hyn. Er enghraifft, os yw dau ddarparwr yn defnyddio'r un cilometr o bibell, mae hyn yn dangos dau gilometr yn y data; os yw dau ddarparwr yn atodi dau atodiad i'r un polyn, mae hyn yn cyfrif fel pedwar atodiad. Bydd cyfanswm y cilometrau o bibelli unigryw a nifer y polion unigryw a ddefnyddir gan ddefnyddwyr PIA yn is. Sylwch y gallai darparwyr ddefnyddio'r un bibell neu'r un polyn i wasanaethu gwahanol ddefnyddwyr a/neu gystadlu am yr un defnyddiwr. Fel cyd-destun, mae 496,000 km o bibellau a 4.1m o bolion yn rhwydwaith Openreach.

[20] BT Group. BT Group plc - Adroddiad Blynyddol 2024. Tudalen 60. Cyrchwyd ar 27 Chwefror 2025.

[21] BT Group. BT Group plc - Adroddiad Blynyddol 2024. Tudalen 34. Cyrchwyd ar 27 Chwefror 2025.

[22] Dadansoddiad Ofcom o ddata darpariaeth Cysylltu'r Gwledydd ar gyfer mis Gorffennaf 2024.

ddiweddaraf, sy’n gallu cynnig gwasanaethau cymesur cyflymder uwch.[23] Mae Openreach nawr yn canolbwyntio ar uwchraddio ei broses gyflwyno i gynnig y cyflymderau uwch hyn hefyd, yn ogystal â pharhau â’i raglen adeiladu.

2.27 Roedd argaeledd rhwydweithiau sy’n gallu delio â gigabits (gan gynnwys adeiladu a ariennir yn gyhoeddus) ym mis Gorffennaf 2024 yn 25m o safleoedd (83%), ac roedd gan 20.7m (69%) o safleoedd fynediad at ffeibr llawn. Mae darpariaeth sy’n gallu delio â gigabits yn debygol o gyflawni targed y Llywodraeth o gyrraedd 85% o safleoedd erbyn diwedd 2025. Mae’r argaeledd arfaethedig, ar sail cynlluniau pob rhwydwaith amgen, ar gyfer darpariaeth sy’n gallu delio â gigabits i gyrraedd 97% yn 2027, er ein bod yn nodi na fydd pob cynllun o reidrwydd yn cael ei gyflawni.[24] Mae’r cynlluniau ar gyfer cyflwyno rhagor ar ben y gwaith sylweddol rydym eisoes wedi’i weld yn arwydd o hyder gweithredwyr rhwydweithiau i barhau i fuddsoddi mewn cyflwyno ffeibr llawn dros y blynyddoedd nesaf.


2.28 Er bod faint o adeiladu a wneir erbyn 2026 yn debygol o fod yn fwy na’r hyn roeddem yn ei ddisgwyl, rydym yn dal yn rhagweld mwy o adeiladu yn ystod y cyfnod adolygu nesaf (2026-2031). Fel y nodwyd uchod, mae Openreach wedi nodi ei ddyhead i adeiladu hyd at 30 miliwn o safleoedd erbyn 2030. Rydym yn disgwyl rhagor o waith adeiladu rhwydweithiau amgen, er y gallai hyn fod yn fwy cyfyngedig o ystyried bod yr hinsawdd fuddsoddi wedi newid ers 2021. Serch hynny, gallai adeiladu masnachol ymestyn ymhellach i ardaloedd gwledig, er y bydd rôl bwysig o hyd ar gyfer cyllid cyhoeddus drwy BDUK a rhaglenni llywodraethau’r Gwledydd i gyrraedd y safleoedd drutaf.

2.29 Yn ogystal â’r cynnydd hwn mewn argaeledd, mae prisiau gwasanaethau ffeibr llawn wedi gostwng yn sylweddol ers 2021, fel y gwelir yn Ffigur 2.1. Mae prisiau ffeibr llawn hefyd yn nes o lawer at bris yr hen wasanaethau (Ffeibr i’r Cabinet - FTTC) er y bydd ansawdd gwasanaethau a chyflymderau cyfartalog yn llawer gwell ar gyfer ffeibr llawn. Ar y lefel gyfanwerthol, mae Openreach wedi gostwng ei brisiau drwy’r cynigion Equinox (rydym wedi adolygu hyn, ac rydym yn trafod hyn ym mharagraff 2.36 isod).

[23] Mae rhai rhwydweithiau amgen wedi defnyddio technoleg XGS-PON, sy’n cefnogi capasiti 10 Gbit yr eiliad i fyny ac i lawr y gadwyn gyflenwi.

[24] Rydym yn disgwyl bod targed y Llywodraeth wedi cael ei ragori ers i ni gyhoeddi ein diweddariad Cysylltu’r Gwledydd diwethaf. Darpariaeth Band Eang Gigabit yn cyrraedd 85% o Safleoedd y DU - ISPreview UK. Cyrchwyd ar 22 Ionawr 2025.

**Ffigur 2.1 Prisiau ar gyfer gwasanaethau band eang preswyl a ddarperir ar rwydweithiau ffeibr llawn a FTTC ers Adolygiad 2021 (prisiau cyfartalog termau real bob mis)**




*Ffynhonnell: Adroddiadau Tracio Prisiau Band Eang MisoOfcom / Pure Pricing*
*Wedi’u haddasu ar gyferCPI (prisiau Rhagfyr 2024)*

2.30 Mae’r lefel sylweddol o adeiladu wedi arwain at gynnydd yn nifer y safleoedd sydd â mynediad at fwy nag un rhwydwaith. Yn hanesyddol, dim ond y safleoedd hynny a wasanaethir gan Virgin Media O2 (VMO2) oedd â dewis o rwydweithiau ac roedd VMO2 ar gael i tua hanner safleoedd y DU. Erbyn hyn, mae gan ychydig dros 70% o safleoedd o leiaf un dewis arall yn lle Openreach, ac mae gan bron i chwarter ddau neu fwy.[25]

2.31 Er bod rhwydweithiau amgen wedi cyflwyno i tua hanner y DU, mae angen iddynt adeiladu sylfaen cwsmeriaid a thyfu er mwyn dod yn gystadleuwyr cynaliadwy yn y tymor hwy.

2.32 Ar draws pob darparwr, mae’r nifer sy’n eu defnyddio’n cynyddu, gyda 49% o gwsmeriaid mewn ardaloedd lle mae rhwydweithiau sy’n gallu delio â gigabits ar gael yn manteisio ar wasanaethau sy’n gallu delio â gigabit o fis Gorffennaf 2024 ymlaen, cynnydd o 42% y flwyddyn flaenorol. Mae’r nifer sy’n defnyddio rhwydweithiau ffeibr llawn ychydig yn is ar 35%, ac mae’n uwch mewn ardaloedd gwledig nag mewn ardaloedd trefol. Mae’r nifer is sy’n defnyddio ffeibr llawn yn adlewyrchu’r amser a gymerir i adeiladu sylfaen pan fydd y rhwydwaith ar gael, fel y dangosir yn Nhabl 2.1 isod.

**Tabl 2.1: Y tebygolrwydd o ddefnyddio ffeibr llawn o ran yr amser sydd ar gael[26]**

| Sawl blwyddyn mae ffeibr llawn wedi bod ar gael ar y safle | Y tebygolrwydd bod ffeibr llawn wedi cael ei ddefnyddio |
|---|---|
| **Blwyddyn neu lai** | 12% |
| **Dros flwyddyn, hyd at ddwy flynedd** | 27% |
| **Dros ddwy flynedd, hyd at dair blynedd** | 37% |
| **Dros dair blynedd, hyd at bedair blynedd** | 47% |

[25] Wrth gyfeirio at Openreach, rydym yn golygu holl rwydweithiau ffeibr llawn a hen rwydweithiau Openreach.
[26] Ofcom. 5 Rhagfyr 2024. Cysylltu’r Gwledydd 2024. Tabl 2.5.

| Sawl blwyddyn mae ffeibr llawn wedi bod ar gael ar y safle | Y tebygolrwydd bod ffeibr llawn wedi cael ei ddefnyddio |
|---|---|
| **Dros bedair blynedd** | 53% |

2.33 Mae rhwydweithiau amgen yn datblygu sylfaen cwsmeriaid drwy eu gweithgareddau manwerthu eu hunain, drwy gytundebau cyfanwerthu, neu’r ddau. Gall datblygu busnes manwerthu gymryd amser wrth i’r rhwydwaith amgen feithrin enw da i gystadlu â brandiau presennol, tra gall cytundebau cyfanwerthu fod yn gymhleth a chymryd llawer o amser i’w negodi a’u rhoi ar waith. Mae rhwydweithiau amgen hefyd yn wynebu heriau sylweddol wrth oresgyn manteision hirhoedledd Openreach.

2.34 Fodd bynnag, mae’r dewis cynyddol o rwydweithiau wedi arwain at ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd manwerthu mawr yn troi at ddewisiadau eraill yn lle Openreach. Ar wahân i BT a VMO2 (sydd ill dau wedi’u hintegreiddio’n fertigol), mae gan y brandiau manwerthu mwyaf eraill gytundebau i ddefnyddio rhwydweithiau ar wahân i Openreach, gan gynnwys CityFibre.[27] Mae’r cytundebau hyn yn rhoi mynediad i rwydweithiau i’r darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd manwerthu gan ddefnyddio’r technolegau diweddaraf am brisiau cystadleuol. Yn eu tro, mae’r cytundebau hyn yn rhoi rhywfaint o hyder i’r rhwydweithiau amgen ynghylch y nifer sy’n manteisio ar eu rhwydwaith, gan gefnogi rhagor o fuddsoddiad a chyflwyno.

2.35 Mae’r gwaith adeiladu wedi bod yn fwy tameidiog nag yr oeddem wedi’i ddisgwyl yn 2021, ac mae’n debygol y bydd dros 100 o rwydweithiau amgen yn cyflwyno rhwydweithiau ffeibr yn y DU. Nifer cymharol fach o’r rhwydweithiau amgen hyn sy’n cyfrif am y rhan fwyaf o’r gwaith adeiladu rhwydweithiau amgen hyd yma, gyda chynffon hir o rwydweithiau amgen llai. O ystyried cymaint o gwmnïau sydd wedi ymuno â’r farchnad, mae’n debygol y bydd llawer o gyfuno yn y farchnad dros y blynyddoedd i ddod.

## Cynlluniau eraill sy’n cyd-fynd â’n hamcanion ac sy’n cefnogi’r gwaith o’u cyflawni

2.36 Yn Adolygiad 2021, roeddem yn cydnabod y byddai angen i ni fonitro’r farchnad a gweithredu ein hatebion i sicrhau ein bod yn aros ar y trywydd iawn i gyflawni ein hamcanion. Ers Adolygiad 2021, rydym wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau yn y cyswllt hwn:

- Caniatáu mynediad i bibellau a pholion (DPA) - Mae mynediad i bibellau a pholion Openreach yn rhan allweddol o strategaeth Ofcom i gefnogi buddsoddiad. Roeddem yn cydnabod bod angen datblygu rhagor ar y cynhyrchion yr oedd Openreach yn eu cyflenwi i’r diwydiant, a’r prosesau a ddefnyddiwyd i’w darparu, er mwyn sicrhau bod modd eu defnyddio ar raddfa fawr. Rydym wedi bod yn gweithio drwy’r materion hyn gydag Openreach, OTA2 a’r diwydiant ac mae gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud, gan arwain at y defnydd sylweddol o PIA a welwn yn awr.[28] Rydym yn parhau i fonitro datblygiad PIA ac yn ymateb i bryderon a godwyd gyda ni.

[27] CityFibre. Sky a CityFibre yn ffurfio partneriaeth. Cyrchwyd ar 6 Mawrth 2025. CityFibre. Vodafone yn angori Ffeibr Llawn CityFibre ledled y DU…. Cyrchwyd ar 6 Mawrth 2025. Platform X Communications. PXC am ffurfio partneriaeth â’r rhwydwaith amgen sy’n tyfu gyflymaf, sef Netomnia and Brsk. Cyrchwyd ar 6 Mawrth 2025.

[28] Mae Swyddfa’r Dyfarnwr Telegyfathrebiadau (OTA2) yn sefydliad sy’n annibynnol ar Ofcom a’r diwydiant, sy’n gyfrifol am oruchwylio cydweithrediad rhwng darparwyr telegyfathrebiadau.

- Ystyried cynigion prisiau Openreach a monitro parhaus - fe wnaethom gyflwyno gofyniad bod Openreach yn rhoi o leiaf 90 diwrnod o rybudd o gyflwyno telerau masnachol penodol (fel disgownt mewn niferoedd) a allai atal darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd manwerthu rhag defnyddio rhwydweithiau sydd mewn cystadleuaeth. Ers hynny, rydym wedi ystyried dau gynnig a ddaeth o dan y broses hon gan Openreach (Equinox ac Equinox 2). Ar ôl asesu pob un o'r cynigion a barn rhanddeiliaid, penderfynodd Ofcom beidio â'u hatal rhag cael eu cyflwyno. Ochr yn ochr â'n hasesiad o delerau cynnig Equinox 2, roeddem hefyd wedi ystyried pryderon rhanddeiliaid ynghylch lefel y prisiau o dan y cynnig hwnnw ac arferion Openreach o ran trafod a datblygu disgowntiau gyda darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd. Fodd bynnag, ni wnaethom nodi ar y pryd unrhyw bryderon a fyddai'n ein harwain i gymryd camau pellach. Rydym yn parhau i fonitro effaith y cynigion hyn ar ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd o bryd i'w gilydd.
- Uned Monitro Openreach (OMU) - Rydym yn cydnabod y rôl sylweddol y mae Openreach yn ei chwarae yn y marchnadoedd hyn, ac mae ei ymddygiad yn allweddol o ran sicrhau bod cystadleuaeth yn gweithredu'n deg i bob adeiladwr rhwydwaith. Am y rheswm hwn, yn ein hadroddiad monitro blynyddol yn 2021 fe wnaethom gyhoeddi, wrth symud ymlaen, y byddai cwmpas gwaith Uned Monitro Openreach yn cynnwys materion sy'n ymwneud â chanlyniadau ehangach Adolygiad 2021 (yn ogystal â monitro cydymffurfiad Openreach a BT â'r Ymrwymiadau). Mae hyn yn golygu monitro gweithgareddau Openreach mewn perthynas â buddsoddi, canlyniadau i ddefnyddwyr a chystadleuaeth. Mynegodd rhanddeiliaid yn y diwydiant bryderon am gynlluniau adeiladu ffeibr Openreach a 'goradeiladu'. Yn ystod 2022 buom yn ymgysylltu'n fanwl ag Openreach i ddeall yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau adeiladu penodol. Ni welsom unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod Openreach wedi cyflwyno ei rwydwaith ffeibr i dargedu neu niweidio cystadleuwyr, neu nad oedd y penderfyniadau adeiladu hyn yn fasnachol resymol. [29] Fodd bynnag, rydym yn parhau i fonitro cynlluniau a phenderfyniadau adeiladu Openreach.
- Ymchwiliad i fethiant Openreach i fodloni safonau Ansawdd Gwasanaeth yn 2022/23 - Mae hefyd yn bwysig ein bod yn sicrhau bod Openreach yn darparu ei wasanaethau i safon dda, ac yn Adolygiad 2021 rydym yn gosod amodau ansawdd gwasanaeth er mwyn i Openreach gyflawni hyn. Bwriedir i'r rhwymedigaethau fod yn llai, a'u bod yn cael eu bodloni ym mhob achos, heblaw amgylchiadau eithriadol iawn. Rydym yn monitro perfformiad Openreach yn erbyn y rhwymedigaethau hyn a byddwn yn ymchwilio i achosion lle nad yw'n bodloni'r safonau gofynnol. Ar 18 Mawrth 2024, cwblhaodd Ofcom ymchwiliad ar ei liwt ei hun i gydymffurfiad Openreach â'i rwymedigaethau ansawdd gwasanaeth yn y marchnadoedd LLA a WLA yn ystod 2022/23. Gwelsom fod Openreach wedi mynd yn groes i amodau ei SMP drwy fethu â chyflawni tri o'i rwymedigaethau.[30]

2.37 Byddwn yn parhau i fonitro ymddygiad Openreach, datblygiadau yn y farchnad, esblygiad cystadleuaeth a chanlyniadau i ddefnyddwyr ar ôl i ni gwblhau'r adolygiad hwn, fel y gwnaethom yn ystod Adolygiad 2021.

[29] Ofcom. 29 Tachwedd 2022. Llythyr agored i'r diwydiant am bryderon a godwyd gydag Ofcom sy'n gysylltiedig ag adeiladu Openreach.

[30] Fe wnaethom ystyried nifer o ffactorau a oedd yn golygu na wnaethom roi cosb na gorfodi unrhyw gywiriadau eraill y tro hwn. Ofcom. 7 Mehefin 2024. Ymchwilio i berfformiad ansawdd gwasanaeth Openreach o ran mynediad llinellau ar brydles a mynediad lleol cyfanwerthol yn 2022/23.

2.38 Mae’r atebion rydym yn eu rhoi ar waith i fynd i’r afael â phŵer sylweddol BT yn y farchnad yn Adolygiad 2021 yn un o’r ffyrdd rydym yn ceisio sicrhau’r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr. Maent yn cyd-fynd â’n mentrau eraill sy’n cefnogi ein hamcanion o ran cyflwyno rhwydweithiau sy’n gallu delio â gigabits, nifer y defnyddwyr a chystadleuaeth, gan gynnwys:

- Newid Un Cam (OTS)[31] -Daeth rheolau newydd i rym ar 3 Ebrill 2023 a oedd yn mynnu bod darparwyr yn gweithredu proses ‘Newid Un Cam’ (OTS) ar gyfer cwsmeriaid preswyl sy’n dymuno newid eu gwasanaethau llinell dir neu fand eang. Ym mis Medi 2024, aeth OTS yn fyw. Mae hyn yn gwneud y broses o newid band eang yn gyflymach, yn haws ac yn fwy dibynadwy. Felly, bydd darparwyr gwasanaeth yn rheoli’r holl broses symud i gwsmeriaid newydd sy’n symud rhwng gwahanol rwydweithiau neu dechnolegau.
- Hysbysiadau Diwedd Contract (ECNs)[32] – mae ein rheoliadau ECN yn mynnu bod darparwyr band eang yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr pan fydd eu contractau’n dod i ben a’r bargeinion gorau sydd ganddynt i’r defnyddwyr hynny. Mae hyn er mwyn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i ddefnyddwyr i’w helpu i benderfynu a ydynt am newid darparwr, a phryd.
- Mynnu bod gwybodaeth gliriach ar gael am dechnolegau band eang[33] - Wrth i’r broses o gyflwyno rhwydweithiau sy’n gallu delio â gigabits barhau, mae gan ddefnyddwyr ddewis cynyddol o rwydweithiau a gwasanaethau i ddewis ohonynt. Mae’n bwysig bod ganddynt ddigon o wybodaeth i wneud y penderfyniad iawn ar eu cyfer. Rydym hefyd eisiau cefnogi defnyddwyr i symud o dechnolegau hŷn i dechnolegau mwy newydd yn hyderus, gan gynnwys o fand eang sy’n seiliedig ar gopr i fand eang ffeibr llawn. Ym mis Rhagfyr 2023, fe wnaethom gyhoeddi datganiad yn nodi ein penderfyniad i helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau mwy gwybodus. Mae’n egluro sut a phryd rydym yn credu y dylai darparwyr band eang ddweud wrth bobl am y dechnoleg sylfaenol sy’n cael ei defnyddio i ddarparu eu gwasanaeth. Ochr yn ochr â’r datganiad, mae Ofcom wedi cyhoeddi canllawiau i sicrhau bod darparwyr yn rhoi’r wybodaeth hon i ddefnyddwyr mewn ffordd glir a diamwys.

2.39 Rydym hefyd yn cydnabod bod costau cyflwyno mewn rhannau o’r DU yn golygu ei bod yn annhebygol y byddant yn gweld rhwydweithiau sy’n gallu delio â gigabits yn cael eu cyflwyno’n fasnachol. Yn yr ardaloedd hyn, bydd rhaglenni cyllid cyhoeddus yn parhau i chwarae rhan bwysig. Mae Llywodraeth y DU, drwy Brosiect Gigabit, yn cefnogi’r gwaith o gyflwyno gigabit ochr yn ochr â rhaglenni buddsoddi band eang eraill gan lywodraethau datganoledig yng ngwledydd y DU, gan gynnwys rhaglen Cyflymu Cymru yng Nghymru, rhaglen Reaching 100% (R100) yn yr Alban, a Project Stratum yng Ngogledd Iwerddon. Er y bydd y cyllid hwn yn ymestyn darpariaeth ffeibr llawn y tu hwnt i’r cyflwyno masnachol, mae technolegau eraill fel Mynediad Di-wifr Sefydlog (FWA) neu loeren yn debygol o chwarae rhan wrth fynd i’r afael ag anghenion yr ardaloedd anoddaf eu cyrraedd.

[31] Ofcom. 12 Medi 2024. Cyfle i newid band eang yn gyflymach ac yn symlach.
[32] Ofcom. 12 Ebrill 2022. A ydych chi’n dal mewn contract neu allan o gontract?
[33] Ofcom. 16 Medi 2024. Cwsmeriaid i gael gwybodaeth gliriach am fand eang

# Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau 2026 (TAR26)

## Ein hamcanion ar gyfer yr adolygiad hwn

2.40 Yn yr adolygiad hwn rydym yn nodi nifer o farchnadoedd ac yn cynnig a oes gan unrhyw barti SMP yn y marchnadoedd hynny. Rydym yn cynnig atebion priodol ar sail natur y pryderon ynghylch cystadleuaeth rydym wedi’u nodi, gan ystyried ein dyletswyddau a’n pwerau cyfreithiol. Lle mae gennym ddisgresiwn o ran gosod atebion (er enghraifft, lle gallai sawl dull gwahanol o unioni fynd i’r afael â’n pryderon ynghylch cystadleuaeth) rydym yn arfer ein disgresiwn o blaid dull gweithredu sy’n hyrwyddo ein hamcanion ar gyfer yr adolygiad hwn.

2.41 Mae ein hamcanion yn adlewyrchu ein blaenoriaethau strategol fel y nodir uchod. Dyma ein hamcanion lle mae cystadleuaeth rhwydwaith yn hyfyw:

- hyrwyddo buddsoddiad a chystadleuaeth mewn rhwydweithiau gan Openreach a darparwyr eraill;
- hyrwyddo mynediad i fyny’r ffrwd i seilwaith ffisegol Openreach er mwyn hybu cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau; a
- cheisio diogelu defnyddwyr a chystadleuaeth ar sail mynediad i rwydwaith Openreach wrth i gystadleuaeth y rhwydwaith ddatblygu.

2.42 Dyma ein hamcanion lle nad yw cystadleuaeth rhwydwaith yn hyfyw:

- diogelu defnyddwyr a hyrwyddo cystadleuaeth ar sail mynediad i rwydwaith Openreach sy’n caniatáu i ddarparwyr ymhellach i lawr y ffrwd gynnig dewis o wasanaethau manwerthu i ddefnyddwyr; a
- cheisio hyrwyddo buddsoddiad gan Openreach mewn rhwydweithiau sy’n gallu delio â gigabits mewn ardaloedd sy’n annhebygol o weld rhwydweithiau sy’n cystadlu â’i gilydd yn ymddangos, er mwyn i ddefnyddwyr yn yr ardaloedd hyn allu cael manteision rhwydwaith wedi’i uwchraddio a gwasanaethau gwell hefyd.

2.43 Mae ein hatebion arfaethedig yn canolbwyntio ar fynd i’r afael â’r pryderon ynghylch cystadleuaeth sy’n codi’n benodol ym mhob un o’r marchnadoedd rydym yn eu nodi. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod rhai rhwydweithiau’n cynnig cystadleuaeth mewn nifer o wasanaethau (er enghraifft, band eang a llinellau ar brydles) sy’n golygu y gallai’r dull gweithredu ar gyfer atebion mewn un farchnad fod yn berthnasol mewn marchnadoedd eraill hefyd.

2.44 Mae’r amcanion hyn yn aros yr un fath ag ar gyfer Adolygiad 2021.

## Ein dyletswyddau o dan y Ddeddf[34]

2.45 Rydym o’r farn bod ein hamcanion ar gyfer yr adolygiad hwn, a’r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn, yn cyd-fynd â’n dyletswyddau yn adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf). Mae hyn yn cynnwys ein prif ddyletswydd i hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau, a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Yn benodol, rydym yn hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr drwy osod ein rheoliadau i greu amodau priodol i gymell Openreach a gweithredwyr eraill i fuddsoddi

[34] Mae Atodiad 5 yn disgrifio ein dyletswyddau statudol a’r materion y dylem eu hystyried wrth gyflawni ein swyddogaethau.

mewn rhwydweithiau sy’n gallu delio â gigabits, drwy gystadleuaeth rhwng rhwydweithiau lle bo hynny’n ymarferol, a chymhellion buddsoddi priodol lle nad yw hynny’n ymarferol. Rydym wedi disgrifio uchod y manteision y gall rhwydweithiau sy’n gallu delio â gigabits eu darparu i ddefnyddwyr o ran gwasanaethau cyflymach ac o ansawdd gwell.

2.46 Ar ben hynny, dylai’r gystadleuaeth rhwng rhwydweithiau sy’n deillio o hynny mewn ardaloedd lle mae hyn yn ymarferol arwain at fanteision i ddefnyddwyr yn y tymor hir o arloesi (gan gynnwys arloesi i gynyddu effeithlonrwydd a lleihau costau), dewis, cymhellion cryfach i brisio’n ddoeth i ddenu cwsmeriaid ac ansawdd uwch i’r gwasanaeth. Yn y tymor hir, gall hefyd ganiatáu dadreoleiddio mewn rhai meysydd. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod pan fydd cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau’n datblygu ac mewn rhannau o’r DU lle nad yw cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau’n debygol o fod yn hyfyw, rydym hefyd yn cydnabod yr angen i gynnal cystadleuaeth manwerthu a diogelu buddiannau defnyddwyr drwy sicrhau mynediad at rwydwaith Openreach, a thrwy reoleiddio prisiau ac ansawdd gwasanaeth, lle bo hynny’n briodol.

2.47 Rydym o’r farn bod ein hamcanion a’n cynigion hefyd yn gyson â’r gofyniad i ni, wrth gyflawni ein swyddogaethau, sicrhau bod ystod eang o wasanaethau cyfathrebu ar gael ledled y DU. Fel y nodwyd uchod, rydym o’r farn mai cymell buddsoddiad mewn rhwydweithiau ledled y DU drwy gystadleuaeth rhwng rhwydweithiau a’r cymhellion buddsoddi priodol yw’r ffordd orau o ddiwallu’r galw cynyddol am wasanaethau cyfathrebu cyflym, sy’n defnyddio llawer o ddata, a bydd yn darparu llwyfan i wasanaethau newydd arloesol ddatblygu.

2.48 O’r ffactorau eraill a grybwyllir yn adran 3 y Ddeddf, rydym wedi ystyried, yn benodol, pa mor ddymunol yw hyrwyddo cystadleuaeth mewn marchnadoedd perthnasol, pa mor ddymunol yw annog buddsoddi ac arloesi mewn marchnadoedd perthnasol, pa mor ddymunol yw annog argaeledd a defnyddio gwasanaethau trosglwyddo data cyflym iawn ledled y Deyrnas Unedig, yn ogystal â buddiannau defnyddwyr o ran dewis, pris, ansawdd gwasanaeth a gwerth am arian.

2.49 Rydym hefyd wedi ystyried yr egwyddorion sy’n mynnu bod ein gweithgareddau rheoleiddio yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur ac yn gyson, a’u bod ond yn targedu’r achosion hynny lle mae angen cymryd camau.

2.50 Rydym o’r farn bod ein hamcanion a’n cynigion hefyd yn cyd-fynd â’n dyletswyddau a nodir yn adran 4 y Ddeddf, yn benodol, ac am y rhesymau a nodir uchod:

- y gofyniad cyntaf i hybu cystadleuaeth;
- yr ail ofyniad i hyrwyddo buddiannau holl aelodau’r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig;
- y trydydd gofyniad i ystyried pa mor ddymunol yw bod Ofcom yn cyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd nad yw, i’r graddau y mae hynny’n ymarferol, yn ffafrio un math neu fodd o ddarparu rhwydweithiau cyfathrebu electronig, gwasanaethau neu gyfleusterau cysylltiedig dros un arall (hynny yw, bod yn niwtral yn dechnolegol);
- y pedwerydd gofyniad i annog darparu mynediad i rwydwaith er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a chystadleuaeth gynaliadwy, buddsoddiad ac arloesedd effeithlon a’r budd mwyaf i bobl sy’n gwsmeriaid i ddarparwyr cyfathrebiadau a phobl sy’n darparu cyfleusterau cysylltiedig; a’r
- chweched gofyniad i hyrwyddo cysylltedd a mynediad at rwydweithiau capasiti uchel iawn gan aelodau o’r cyhoedd a busnesau yn y Deyrnas Unedig.

## Datganiad Blaenoriaethau Strategol (SSP)

2.51 Ein barn ni yw bod ein dull gweithredu strategol yn cyd-fynd ag uchelgais Llywodraeth y DU i ddarparu rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits a sicrhau eu bod ar gael yn eang ledled y DU. Yn benodol, mae ein dull gweithredu yn cefnogi targed y llywodraeth o ddarpariaeth gigabit ledled y DU erbyn 2030.

2.52 Fel sy'n ofynnol o dan adran 2B(2) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, rydym wedi ystyried Datganiad Blaenoriaethau Strategol (SSP) y llywodraeth flaenorol ar gyfer telegyfathrebiadau, rheoli sbectrwm radio a gwasanaethau post.[35] Yn benodol, rydym wedi ystyried y meysydd blaenoriaeth canlynol sy'n cael sylw yn y SSP: seilwaith digidol o'r radd flaenaf, hyrwyddo buddiannau defnyddwyr telegyfathrebiadau a sicrhau seilwaith telegyfathrebiadau diogel a chadarn. Rydym yn nodi rhagor o fanylion yng Nghyfrol 3, Adran 1 mewn perthynas â'r SSP.

2.53 Disgwylir i Lywodraeth bresennol y DU ddynodi SSP newydd cyn i ni gyhoeddi ein datganiad terfynol. Bydd yn rhaid i ni ystyried hynny (yn hytrach na'r SSP presennol) wrth wneud ein penderfyniadau terfynol.

## Dyletswydd o ran Twf

2.54 Wrth lunio ein cynigion, rydym hefyd wedi ystyried ein "dyletswydd o ran twf", rhwymedigaeth statudol i ystyried pa mor ddymunol yw hybu twf economaidd wrth gynnal yr adolygiad hwn, ac i'r canllawiau statudol sy'n mynd gyda'r ddyletswydd twf honno. [36] Rydym yn gwneud hynny yng nghyd-destun ein prif ddyletswydd i hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, lle bo hynny'n briodol drwy hyrwyddo cystadleuaeth, a rhoi sylw, yn benodol, i ba mor ddymunol yw annog buddsoddiad ac arloesedd.

2.55 Rydym wedi nodi uchod y ffordd rydym yn credu y bydd ein cynigion yn y ddogfen hon yn cymell buddsoddiad mewn rhwydweithiau newydd gan ystod eang o ddarparwyr presennol a newydd, ac yn darparu amgylchedd rheoleiddio sefydlog ar gyfer buddsoddiadau hirdymor sydd eisoes wedi'u gwneud. Rydym yn disgwyl i'r buddsoddiad hwn a'r gystadleuaeth rhwng rhwydweithiau sy'n deillio o hynny hyrwyddo twf economaidd drwy alluogi darparu gwasanaethau cyfathrebu cyflymach a gwell i ddefnyddwyr a busnesau, gan sbarduno arloesedd, mwy o effeithlonrwydd a llai o gostau. Wrth wneud hynny, rydym yn ystyried nid yn unig fuddiannau defnyddwyr a busnesau heddiw, ond hefyd yn ystyried y buddsoddiad, yr arloesi a'r gystadleuaeth sydd eu hangen i gyflawni ar gyfer defnyddwyr a busnesau yn y dyfodol.

2.56 Wrth i economi'r DU ddod ddibynnu fwyfwy ar wasanaethau digidol, mae gwell seilwaith telegyfathrebiadau yn galluogi twf yn yr economi ehangach drwy alluogi (a chyflymu) datblygiad gwasanaethau a thechnolegau eraill, a chynyddu cynhyrchiant. Er enghraifft, mae buddsoddi mewn cyflwyno technolegau telegyfathrebiadau mwy newydd sy'n gallu cefnogi gwasanaethau cyflymach yn gallu ysgogi arloesi a buddsoddiad mewn busnesau, oherwydd gall cwmnïau elwa o ddarparu swyddogaethau gwell i ddefnyddwyr na fyddai'n cael eu cefnogi gan genedlaethau hŷn o fand eang. Mae cyflwyno rhwydweithiau telegyfathrebiadau gwell ar draws mentrau busnes yn gwella cynhyrchiant drwy hwyluso prosesau mwy effeithlon a chefnogi defnyddwyr sy'n cael mynediad at wasanaethau a ddarperir gan fusnesau a'r sector cyhoeddus. Gall band eang cyflymach hefyd arwain at

---

[35] Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Datganiad Blaenoriaethau Strategol ar gyfer telegyfathrebiadau, rheoli sbectrwm radio, a gwasanaethau post. Cyrchwyd ar 6 Mawrth 2025.
[36] Adran 108 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015. Cyrchwyd ar 6 Mawrth 2025.

ledaenu gwybodaeth yn gyflymach i fusnesau a defnyddwyr, er enghraifft, maent yn ei chael hi'n haws cymharu prisiau sydd, yn ei dro, yn ysgogi cystadleuaeth ar draws amrywiaeth o farchnadoedd.

2.57 Rydym yn nodi'n fanylach yng Nghyfrol 3, Adran 1 sut rydym wedi ystyried ein dyletswydd i dyfu ac i'r canllawiau statudol cysylltiedig.

## Ein dull gweithredu y tu hwnt i 2031

2.58 Mae'r ddogfen hon yn nodi ein cynigion ar gyfer rheoleiddio tan fis Mawrth 2031. Fodd bynnag, yn unol â'r dull gweithredu a nodwyd gennym yn 2021, rydym yn cydnabod bod gan y buddsoddiadau sy'n cael eu gwneud gan bob gweithredwr rhwydwaith mewn rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits gyfnodau talu'n ôl hir a bod cystadleuaeth berthnasol yn cymryd amser i ddatblygu a dod yn gynaliadwy. Er y bydd ein penderfyniadau yn y dyfodol yn dibynnu ar yr amgylchiadau sy'n bodoli pan fyddwn yn cynnal ein hadolygiadau nesaf, rydym yn ailadrodd sut byddem yn disgwyl mynd i'r afael â phenderfyniadau yn y dyfodol.

2.59 Erbyn 2031, bydd ein strategaeth wedi caniatáu cyfnod o ddeng mlynedd ar gyfer cyflwyno rhwydweithiau a galluogi cystadleuaeth i ddatblygu. Rydym yn disgwyl i gystadleuaeth gan ddarparwyr newydd barhau i ddatblygu wrth iddynt sefydlu eu hunain fel cystadleuwyr cynaliadwy. Bydd hyn yn ein rhoi ar y trywydd i ddadreoleiddio mwy fyth yn y dyfodol, gan ganiatáu cystadleuaeth i ddisodli rheoleiddio yn barhaol. Pan fydd cystadleuaeth effeithiol yn dod i'r amlwg, ni fydd angen i Ofcom reoleiddio.

2.60 Os byddwn yn credu bod buddsoddiad a chystadleuaeth gynaliadwy yn dal yn y broses o ddatblygu y tu hwnt i 2031, byddem yn disgwyl parhau i reoleiddio mewn ffordd sy'n parhau i gefnogi hyn, gan sicrhau bod defnyddwyr yn parhau i gael eu diogelu. Wrth ystyried hyn, byddem yn disgwyl edrych ar i ba raddau y mae buddsoddiad eisoes wedi arwain at gynnydd mewn cystadleuaeth berthnasol a chynaliadwy yn ystod y deng mlynedd flaenorol, ac i ba raddau y gallai cystadleuaeth ddwysau ar ôl 2031.

2.61 Os oes angen symud at reoleiddio Openreach yn seiliedig ar gostau yn y dyfodol, byddwn yn anrhydeddu'r egwyddor cynnig teg. Wrth osod unrhyw reolaethau, byddem yn disgwyl caniatáu i BT gadw'r fantais (hynny yw, enillion sy'n fwy na'i gost cyfalaf y mae wedi'i hennill hyd at y pwynt hwnnw), yn ogystal â sicrhau ei fod yn gallu ennill ei gostau cyfalaf wrth symud ymlaen. Mae hyn yn golygu y byddai gan BT gyfle i ennill elw uwch na'i gost cyfalaf dros y cylch buddsoddi ffeibr cyfan.

2.62 Rydym yn nodi ein dull gweithredu disgwyliedig yn y dyfodol yn fanylach yng Nghyfrol 4, Adran 1.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

2.63 Ers lansio ein hadolygiad, rydym wedi ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys llywodraethau'r DU a'r Gwledydd, cyrff y diwydiant, darparwyr cyfathrebiadau a dadansoddwyr y diwydiant.

2.64 Rydym wedi cael nifer sylweddol o fewnbwn gan randdeiliaid. Rydym wedi cyhoeddi fersiynau heb fod yn gyfrinachol o'r sylwadau hyn, ac rydym wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon. [37] Fodd bynnag, nid ydym yn cyfeirio at bob sylw nac yn ymateb i bob pwynt y mae rhanddeiliaid wedi'i godi yn y ddogfen hon.

[37] Ofcom. Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau 2026.

### Atebion ar ochr y galw

2.65 Mae sylwadau rhanddeiliaid wedi gofyn i ni ystyried ymyriadau ar 'ochr y galw' a fyddai'n ceisio cynyddu'r nifer sy'n defnyddio gwasanaethau sy'n gallu delio â gigabits. Ein barn ni yw bod defnyddio gwasanaethau sy'n gallu delio â gigabits yn hanfodol er mwyn hybu buddiannau defnyddwyr, er mwyn helpu i wireddu manteision y buddsoddiad sydd wedi cael ei wneud mewn rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits, gan gynnwys sbarduno twf economaidd ledled y DU. Mae'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig hefyd yn bwysig i rwydweithiau amgen ddod yn gystadleuwyr sefydledig mewn marchnadoedd telegyfathrebiadau sefydlog.

2.66 Fodd bynnag, rydym o'r farn bod materion ar ochr y galw (ac unrhyw ymyriadau posibl) y tu allan i gwmpas TAR26. Mae materion fel yr wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr am rwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits sydd ar gael yn eu safleoedd yn cael eu hystyried a'u datrys yn fwy priodol drwy ymyriadau sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr sy'n berthnasol i bob darparwr, yn hytrach na drwy reolau TAR26 sydd ond yn berthnasol i ddarparwyr sydd â SMP ac sy'n ceisio mynd i'r afael â phryderon ynghylch cystadleuaeth mewn marchnadoedd cyfanwerthol.

# Crynodeb o'n cynigion

## Diffiniadau o'r farchnad

2.67 Rydym yn cynnig un farchnad cynnyrch cenedlaethol i fyny'r ffrwd (ac eithrio Hull) ar gyfer cyflenwi seilwaith ffisegol telegyfathrebiadau.

2.68 Rydym yn cynnig tair marchnad cynnyrch ymhellach i lawr y ffrwd o'r farchnad seilwaith ffisegol:

- marchnad cynnyrch ar gyfer cyflenwi mynediad lleol cyfanwerthol (WLA) mewn lleoliad sefydlog;
- marchnad cynnyrch ar gyfer cyflenwi mynediad i linellau ar brydles (LLA); a
- marchnad cynnyrch ar gyfer cyflenwi cysylltedd rhyng-gyfnewid (IEC).

2.69 Ar gyfer y marchnadoedd mynediad lleol cyfanwerthol a mynediad i linellau ar brydles, rydym yn cynnig nodi marchnadoedd daearyddol ar wahân lle mae amodau'r gystadleuaeth yn wahanol.

2.70 Ar gyfer mynediad lleol cyfanwerthol, rydym yn cynnig nodi dwy farchnad ddaearyddol:

- Ardal 2 WLA – sectorau cod post lle mae cystadleuaeth berthnasol a chynaliadwy i BT o ran cyflwyno rhwydweithiau sy'n cystadlu â'i gilydd yn fasnachol, neu lle mae'n debygol y bydd potensial ar gyfer hynny; ac
- Ardal 3 WLA – sectorau cod post lle nad oes cystadleuaeth berthnasol a chynaliadwy i BT o ran cyflwyno rhwydweithiau sy'n cystadlu â'i gilydd yn fasnachol, a lle mae'n debygol nad oes potensial ar gyfer hynny.

2.71 Ar gyfer mynediad i linellau ar brydles, rydym yn cynnig nodi dwy farchnad ddaearyddol:[38]

[38] Nid ydym yn ailedrych ar ein hasesiad o Ardal Canol Llundain, sydd wedi cael ei ddadreoleiddio ers 2019.

- Ardal Cyrhaeddiad Uchel y Rhwydwaith (HNR) – sectorau cod post lle, oherwydd bod o leiaf ddau gystadleuydd perthnasol a chynaliadwy cyfredol, mae digon o gystadleuaeth wedi'i sefydlu i BT o ran cyflwyno rhwydweithiau sy'n cystadlu yn fasnachol; ac
- Ar gyfer gweddill y sectorau cod post yng ngweddill y DU:
  - Ardal 2 LLA – sectorau cod post lle mae cystadleuaeth berthnasol a chynaliadwy i BT o ran cyflwyno rhwydweithiau sy'n cystadlu â'i gilydd yn fasnachol, neu lle mae'n debygol y bydd potensial ar gyfer hynny.;
  - Ardal 3 LLA – sectorau cod post lle nad oes cystadleuaeth berthnasol a chynaliadwy i BT o ran cyflwyno rhwydweithiau sy'n cystadlu â'i gilydd yn fasnachol, a lle mae'n debygol nad oes potensial ar gyfer hynny.

2.72 Mae'r safleoedd a wasanaethir gan farchnadoedd daearyddol Ardal 2 ac Ardal 3 yn wahanol ar gyfer WLA ac LLA. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwahaniaethau ym mhresenoldeb rhwydweithiau sy'n darparu gwasanaethau WLA a/neu LLA, sy'n arwain at amrywiadau daearyddol yn amodau'r gystadleuaeth ar gyfer WLA ac LLA.

2.73 Mewn perthynas ag IEC, rydym yn cynnig nodi pob cyfnewidfa BT+2 newydd, a phob cyfnewidfa BT+1 a BT yn unig fel marchnadoedd daearyddol ar wahân. [39] [40]

## Cynigion SMP

2.74 Rydym yn cynnig bod gan BT SMP fel y dangosir isod.

**Tabl 2.2: Crynodeb o'r cynigion SMP**

| Marchnad y cynnyrch | Y farchnad ddaearyddol | SMP? |
|---|---|---|
| Seilwaith Ffisegol | Cenedlaethol (ac eithrio Hull) | ✓ |
| WLA | Ardal 2 | ✓ |
| | Ardal 3 | ✓ |
| LLA | Ardal HNR | ✓ |
| | Ardal 2 | ✓ |
| | Ardal 3 | ✓ |
| IEC | BT yn unig | ✓ |
| | BT+1 | ✓ |
| | BT+2 | × |

[39] Nid ydym yn ailedrych ar ein hasesiad o'r cyfnewidfeydd sy'n cael eu categoreiddio fel BT+2 mewn adolygiadau blaenorol. Mae'r rhain eisoes wedi cael eu dadreoleiddio.

[40] Mae BT yn unig, BT+1 a BT+2 yn cyfeirio at nifer y Prif Weithredwyr Craidd (PCOs) eraill sy'n bresennol mewn cyfnewidfa benodol. Mae PCO yn ddarparwr telegyfathrebiadau sydd â'i seilwaith rhwydwaith ei hun, sydd ag ôl troed sylweddol, ac sy'n cynnig gwasanaeth cysylltedd rhyng-gyfnewid cyfanwerthol i ddarparwyr telegyfathrebiadau eraill.

## Atebion

2.75 Yng ngoleuni ein cynigion SMP, rydym yn cynnig nifer o atebion ym mhob un o’r marchnadoedd perthnasol.

2.76 Ym mhob un o’r marchnadoedd perthnasol hyn rydym yn cynnig rhwymedigaeth mynediad i rwydwaith cyffredinol wedi’i hategu gan dryloywder, dim gwahaniaethu neu fewnbynnau cyfwerth (EOI) a gofynion adrodd ariannol, ynghyd â rheoli prisiau a gofynion ansawdd gwasanaeth lle bo hynny’n briodol.

2.77 Rydym hefyd yn cynnig nifer o atebion penodol ar gyfer mynediad i’r rhwydwaith, sy’n mynnu bod BT (drwy Openreach) yn darparu mathau penodol o fynediad i’r rhwydwaith ym mhob marchnad cynnyrch. Mae ein cynigion ar gyfer pob un o’r marchnadoedd rydym wedi’u nodi wedi’u cyflwyno yn y tablau canlynol.

### Y farchnad seilwaith ffisegol

2.78 Mae’r tabl isod yn nodi’r atebion rydym yn cynnig eu gosod ar BT yn y farchnad seilwaith ffisegol.

**Tabl 2.3: Crynodeb o’n hatebion ar gyfer y farchnad seilwaith ffisegol**

| Ateb Mynediad Penodol PIA | Mynediad i rwydwaith[41] | Tryloywder[42] | Rheoli costau | Ansawdd Gwasanaeth | EOI / Dim gwahaniaethu | Cyfyngiad ar ostyngiadau daearyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mynediad at seilwaith ffisegol** | ✓ | ✓ | Seiliedig ar gost | ✗ DPA Gwirfoddol | Dim gwahaniaethu | ✗ |

### Y Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol

2.79 Dyma ein hatebion arfaethedig ar gyfer Ardal 2 WLA:

[41] Mae mynediad i’r rhwydwaith yn cynnwys gofyniad i Openreach gael proses Datganiad o Ofynion (SoR) lle gall y rhai sydd eisiau mynediad ofyn am fathau newydd o fynediad.

[42] Mae tryloywder yn cynnwys gofynion i gyhoeddi cynnig cyfeirio, darparu hysbysiadau ar gyfer newidiadau i delerau ac amodau presennol ac ar gyfer mathau newydd o fynediad i rwydwaith, a rhoi gwybod am wybodaeth dechnegol. Mae gofyn hefyd am adroddiadau ariannol.

**Tabl 2.4: Crynodeb o'n hatebion yn Ardal 2 WLA**

| Atebion Mynediad Penodol WLA - Ardal 2 | Mynediad i rwydwaith | Tryloywder | Rheoli costau | Ansawdd Gwasanaeth | EOI / Dim gwahaniaethu | Cyfyngiad ar ostyngiadau daearyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **MPF**[43] (angor) | ✓ Dim gofyniad Mynediad i Rwydwaith ar gyfer gwasanaethau copr newydd | ✓ | Prisiau unffurf mewn termau real | Safonau ar gyfer atgyweirio, darparu a phenodi. DPA. | EOI | ✓ |
| **FTTC 80/20** (angor) | ✓ | ✓ | Prisiau unffurf mewn termau real | Safonau ar gyfer atgyweirio, darparu a phenodi. DPA. | EOI | ✓ |
| **FTTC** (pob lled band arall) | ✓ | ✓ | × | Safonau ar gyfer atgyweirio, darparu a phenodi. DPA. | EOI | ✓ |
| **G.fast** (pob lled band) | ✓ | ✓ | × | Safonau ar gyfer atgyweirio, darparu a phenodi. DPA. | EOI | ✓ |
| **FTTP** (pob lled band) | ✓ | ✓ | × 80/20 lle nad oes gwasan-aeth copr ar gael | × DPA yn unig | EOI | ✓ |

2.80 Dyma ein hatebion arfaethedig ar gyfer Ardal 3 WLA:

[43] Mae gofyniad mynediad i rwydwaith SLU hefyd. Darllenwch Gyfrol 3, Adran 4 i gael rhagor o fanylion am SLU.

**Tabl 2.5: Crynodeb o'n hatebion yn Ardal 3 WLA**

| Atebion Mynediad Penodol ar gyfer WLA – Ardal 3 | Mynediad i rwydwaith | Tryloywder | Rheoli costau | Ansawdd Gwasanaeth | EOI / Dim gwahaniaethu | Cyfyngiad ar ostyngiadau daearyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **MPF**[44] (angor) | ✓ Dim gofyniad Mynediad i Rwydwaith ar gyfer gwasanaeth au copr newydd | ✓ | Prisiau unffurf mewn termau real | Safonau ar gyfer atgyweirio, darparu a phenodi. DPA | EOI | × |
| **FTTC 80/20** (angor) | ✓ | ✓ | Prisiau unffurf mewn termau real | Safonau ar gyfer atgyweirio, darparu a phenodi. DPA | EOI | × |
| **FTTC** (pob lled band arall) | ✓ | ✓ | × | Safonau ar gyfer atgyweirio, darparu a phenodi. DPA | EOI | × |
| **FTTP neu G.fast** (pob lled band) | ✓ | ✓ | × 80/20 lle nad oes gwasana eth copr ar gael | Safonau ar gyfer atgyweirio, darparu a phenodi. DPA | EOI | × |

2.81 Ar ben hynny, rydym am i'n gwaith rheoleiddio gefnogi'r broses o drosglwyddo'n ddidrafferth o hen rwydwaith copr BT i'w rwydwaith ffeibr llawn newydd, gan hwyluso amcanion ehangach yr adolygiad hwn ar yr un pryd.

2.82 Rydym yn cynnig cynnal ein dull presennol o symud rheoleiddio o gopr i ffeibr llawn ar sail ardal cyfnewidfa yn ôl ardal cyfnewidfa gan ddefnyddio dull fesul cam. Bydd y rheoleiddio sydd ar waith yn newid wrth i ddarpariaeth gwibgyswllt gynyddu yn yr ardal fel y nodir isod.[45]

[44] Mae gofyniad mynediad i rwydwaith SLU hefyd. Darllenwch Gyfrol 3, Adran 4 i gael rhagor o fanylion am SLU.

[45] Ystyr 'gwibgyswllt' yw gwasanaethau band eang sy'n cael eu darparu gan ddefnyddio rhwydwaith Openreach sy'n gallu darparu o leiaf 300 Mbit yr eiliad, boed hynny drwy ffeibr llawn neu G.fast.

**Tabl 2.6: Crynodeb o'n gofynion rhoi'r gorau i gopr ym marchnadoedd Ardal 2 ac Ardal 3 WLA**

| | Amodau i'w bodloni | Dadreoleiddio |
|---|---|---|
| **Trothwy Cyntaf** | Mae gan 75% o'r gyfnewidfa ddarpariaeth gwibgyswllt<br>Angen hysbysiad 12 mis cyn gweithredu[46] | "rhoi'r gorau i werthu" darpariaethau newydd o wasanaethau WLA lle mae FTTP ar gael.<br>Dim newid i reoleiddio gwasanaethau copr WLA lle nad yw FTTP ar gael.<br>Rhedeg rheolaethau ffioedd cyfochrog ar gyfer FTTC 80/20 a FTTP 80/20 |
| **Ail Drothwy** | Darpariaeth gwibgyswllt cyfnewidfa yn gyflawn (heb gynnwys safleoedd wedi'u heithrio) + o leiaf ddwy flynedd ar ôl rhoi'r gorau i werthu<br>Angen hysbysiad 12 mis cyn gweithredu | Yn ogystal â rhoi'r gorau i werthu, dileu rheoli ffioedd ar FTTC 80/20 mewn safleoedd lle mae FTTP ar gael.<br>Dim newid i wasanaethau copr WLA lle nad yw FTTP ar gael. |

## Y farchnad mynediad llinellau ar brydles

2.83 Dyma ein hatebion arfaethedig ar gyfer yr ardal HNR:

**Tabl 2.7: Crynodeb o'n hatebion yn ardal cyrhaeddiad uchel y Rhwydwaith (HNR) LLA**

| Llinellau ar brydles Ateb Mynediad Penodol – ardal HNR | Mynediad i rwydwaith | Tryloywder | Rheoli costau | Ansawdd Gwasanaeth | EOI / Dim gwahaniaethu | Cyfyngiad ar ostyngiadau daearyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llinellau ar brydles Ether-rwyd ac WDM (pob lled band)** | ✓ | ✓ | ✗<br>Prisiau teg a rhesymol | ✗<br>DPA yn unig | EOI | ✗ |
| **Ffeibr tywyll** | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |

2.84 Dyma ein hatebion arfaethedig ar gyfer Ardal 2 LLA:

[46] Mae'r rhestr gyflawn o'r hysbysiadau sy'n ofynnol ar gael yng Nghyfrol 3, Adran 2.

**Tabl 2.8: Crynodeb o'n hatebion yn Ardal 2 LLA**

| Ateb Mynediad Penodol ar gyfer Llinellau ar Brydles – Ardal 2 | Mynediad i rwydwaith[41] | Tryloywder[42] | Rheoli costau | Ansawdd Gwasanaeth | EOI / Dim gwahaniaethu | Cyfyngiad ar ostyngiadau daearyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llinellau ar brydles Ether-rwyd** (pob lled band) | ✓ | ✓ | Prisiau unffurf mewn termau real | Safonau atgyweirio, darparu a sicrwydd iCDD. DPA. | EOI | ✓ |
| **Llinellau ar brydles WDM** (pob lled band) | ✓ | ✓ | Prisiau unffurf mewn termau real | × DPA yn unig | EOI | ✓ |
| **Ffeibr tywyll** | × | × | × | × | × | × |

2.85 Dyma ein hatebion arfaethedig ar gyfer Ardal 3 LLA:

**Tabl 2.9: Crynodeb o'n hatebion yn Ardal 3 LLA**

| Ateb Mynediad Penodol ar gyfer Llinellau ar Brydles – Ardal 3 | Mynediad i rwydwaith[41] | Tryloywder[42] | Rheoli costau | Ansawdd Gwasanaeth | EOI / Dim gwahaniaethu | Cyfyngiad ar ostyngiadau daearyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llinellau ar brydles Ether-rwyd** (lled band isel – 1 Gbit yr eiliad ac is) | ✓ | ✓ | Seiliedig ar gost | Safonau atgyweirio, darparu a sicrwydd iCDD. DPA | EOI | × |
| **Llinellau ar brydles Ether-rwyd** (lled band uchel iawn – dros 1 Gbit yr eiliad a gwasanaethau optegol) | ✓ | ✓ | Prisiau unffurf mewn termau real | Safonau atgyweirio, darparu a sicrwydd iCDD. DPA | EOI | × |

| Ateb Mynediad Penodol ar gyfer Llinellau ar Brydles – Ardal 3 | Mynediad i rwydwaith[41] | Tryloywder[42] | Rheoli costau | Ansawdd Gwasanaeth | EOI / Dim gwahaniaethu | Cyfyngiad ar ostyngiadau daearyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llinellau ar brydles WDM** (pob lled band) | ✓ | ✓ | Prisiau unffurf mewn termau real | × DPA yn unig | EOI | × |
| **Ffeibr tywyll** | ✓ | ✓ | Seiliedig ar gost | Safonau atgyweirio, darparu a sicrwydd iCDD. DPA | EOI, gwerthiannau allanol yn unig | × |

## Marchnad cysylltedd rhyng-gyfnewid (IEC)

2.86 Mae ein cynigion ar gyfer IEC fel a ganlyn:

**Tabl 2.10: Crynodeb o'r atebion ar gyfer IEC yn BT yn unig a chyfnewidfeydd BT+1**

| Ateb Mynediad Penodol IEC | Mynediad i'r rhwydwaith | Tryloywder | Rheoli tâl | Ansawdd Gwasanaeth | EOI / Dim gwahaniaethu | Cyfyngiad ar ostyngiadau daearyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llinellau ar brydles Ether-rwyd** (pob lled band) | ✓ | ✓ | Prisiau unffurf mewn termau real | Safonau atgyweirio, darparu a sicrwydd iCDD. DPA | EOI | × |
| **Llinellau ar brydles WDM** (pob lled band) | ✓ | ✓ | Prisiau unffurf mewn termau real | × DPA yn unig | EOI | × |
| **Ffeibr tywyll** | ✓ | ✓ | Seiliedig ar gost | Safonau atgyweirio, darparu a sicrwydd iCDD. DPA | EOI - gwerthiannau allanol yn unig | × |

# Asesiad o'r Effaith ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

## Asesiad o Effaith

1.1 Mae Adran 7 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal a chyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom.

2.87 Yn fwy cyffredinol, mae asesiadau effaith yn rhan o lunio polisïau da ac felly, rydym yn disgwyl eu cynnal yng nghyswllt y rhan fwyaf o'n cynigion. Rydym yn defnyddio asesiadau effaith i'n helpu i ddeall ac asesu effaith bosibl ein penderfyniadau polisi cyn i ni eu gwneud. Maent hefyd yn ein helpu i esbonio'r penderfyniadau polisi rydym wedi penderfynu eu gwneud a pham rydym yn credu mai'r penderfyniadau hynny sy'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion perthnasol yn y ffordd sy'n tarfu leiaf. Mae ein canllawiau ar asesu effaith yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer asesu a chyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig.[47]

2.88 Fel y nodir uchod, mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nifer fawr o atebion arfaethedig ar draws amrywiaeth o farchnadoedd. Mae ein hasesiad o'r effaith, yn Atodiad 21, yn crynhoi ein cynigion ac yn croesgyfeirio at ein cynigion manwl yng Nghyfrolau 3 i 6, lle rydym yn ystyried pob un o'n hatebion arfaethedig (ynghyd ag unrhyw opsiynau eraill rydym wedi'u hystyried), ein hamcanion, ein hasesiad o'r effaith, gan gynnwys yr effeithiau ar ddefnyddwyr, rhanddeiliaid, cystadleuaeth a buddsoddiad, ein rhesymeg, y dystiolaeth rydym wedi'i hystyried ac asesiad o gymesuredd ein hymyriad arfaethedig.

## Deddfwriaeth Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

1.2 Mae Ofcom hefyd yn rhwym wrth ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a nodir yn adran 149, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Ofcom, wrth arfer ein swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i: a) dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; b) hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu "nodweddion gwarchodedig perthnasol" a phobl nad ydynt yn eu rhannu; a c) meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a phobl nad ydynt yn eu rhannu.

2.89 Y nodweddion gwarchodedig perthnasol yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.[48]

2.90 Hefyd, mae adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 yn mynnu ein bod yn hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion penodol, gan gynnwys pobl sydd â chredoau crefyddol gwahanol, sydd â barn wleidyddol wahanol neu sy'n perthyn i grwpiau hiliol gwahanol.

2.91 Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Er mwyn rhoi hyn ar waith, mae'n rhaid i rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Ofcom, gydymffurfio â safonau'r Gymraeg wrth ddefnyddio'r iaith.

---

[47] Ofcom. 19 Gorffennaf 2023. Datganiad: Canllawiau asesu effaith.
[48] Adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Cyrchwyd ar 6 Mawrth 2025.

2.92 Mae Atodiad 21 yn nodi ein Hasesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb a’n Hasesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg.

Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw’r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae’r cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch a’n rhesymeg wedi’u nodi yn y ddogfen lawn.

# 3.

# 4. Strwythur gweddill yr ymgynghoriad hwn

4.1 Mae ein cynigion wedi'u nodi mewn saith cyfrol a 23 Atodiad, sydd gyda'i gilydd, yn nodi ein dadansoddiad o farchnadoedd telegyfathrebiadau mynediad sefydlog yn y DU a'r atebion rydym yn cynnig eu gosod ar BT:

- Mae Cyfrol 1 yn cyflwyno trosolwg a chrynodeb o'n penderfyniadau;
- Mae Cyfrol 2 yn nodi ein dadansoddiad o'r farchnad ac asesiad SMP ar gyfer seilwaith ffisegol, mynediad lleol cyfanwerthol, mynediad llinellau ar brydles a gwasanaethau cysylltedd rhyng-gyfnewid;
- Mae Cyfrol 3 yn nodi ein dull gweithredu ar gyfer atebion, ein dull gweithredu ar gyfer rhoi'r gorau i gopr a gadael cyfnewidfeydd, a'n cynigion ar atebion nad ydynt yn ymwneud â phrisio ar gyfer yr holl farchnadoedd (seilwaith ffisegol, mynediad lleol cyfanwerthol, mynediad llinellau ar brydles a gwasanaethau cysylltedd rhyng-gyfnewid);
- Mae Cyfrol 4 yn nodi ein hatebion prisio arfaethedig, gan gynnwys ar gyfer rheoli costau ar gyfer PIA, cyfleuster llwybr metelig (MPF), a'r rhith fynediad lleol wedi'i ddadfwndelu (VULA), gwasanaeth 80/20 Mbit yr eiliad, mynediad llinellau ar brydles, ac IEC gan gynnwys ffeibr tywyll ynghyd ag amrywiaeth o wasanaethau ategol sy'n cefnogi'r broses o ddefnyddio'r gwasanaethau hyn;
- Mae Cyfrol 5 yn nodi ein hatebion arfaethedig ar gyfer ansawdd gwasanaeth;
- Mae Cyfrol 6 yn nodi ein gofynion arfaethedig o ran adroddiadau ariannol; ac
- Mae Cyfrol 7 yn nodi'r amodau SMP arfaethedig.

4.2 Mae'r Atodiadau'n cynnwys manylion y cyfeirir atynt ym mhob un o'r cyfrolau ac maent yn rhan annatod o'n rhesymeg. Mae rhestr lawn o'r atodiadau ar gael isod:

- A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn
- A2. Egwyddorion ymgynghori Ofcom
- A3. Dalen flaen yr ymgynghoriad
- A4. Cwestiynau'r ymgynghoriad
- A5. Y fframwaith rheoleiddio
- A6. Trosolwg o rwydweithiau telegyfathrebiadau
- A7. Methodoleg ar gyfer asesu'r ddarpariaeth rhwydwaith WLA yn ddaearyddol a chyfrannau o'r farchnad
- A8. Dewis o nwyddau angor
- A9. Dadansoddiad daearyddol o linellau ar brydles
- A10. Dadansoddiad o gysylltedd rhyng-gyfnewid
- A11. Canllawiau ar addasiadau rhwydwaith PIA a chydymffurfio â dim gwahaniaethu diangen

- A12. Cymorth rheoleiddiol ar gyfer rhoi'r gorau i gopr: Rhagor o fanylion am y Dull Eithrio Diffiniedig
- A13. Ansawdd perfformiad y gwasanaeth a dadansoddiad lleoliadol
- A14. Modelu refeniw a chostau ar gyfer gwasanaethau gwaddol gweithredol
- A15. Modelu cost y rhwydwaith ffeibr
- A16. Modelu'r RAB yn Ardal 3 WLA
- A17. Modelu cost ffeibr tywyll
- A18. Cyfrifo Uchafswm Costau PIA
- A19. Cost Cyfalaf i Grŵp BT
- A20. Cost Cyfalaf i'r Gwasanaethau Perthnasol
- A21. Asesiadau Effaith
- A22. Geirfa
- A23. Adroddiad CEPA ar Gostau Cyfalaf